



Llywodraeth Cymru – Cronfa'r Môr A Physgodfeydd Ewrop 2014-2020

Cymorth ar gyfer Dyframaethu

Nodiadau Cyfarwyddyd

□

□

CYNNWYS

	PARAGRAFF
Cyflwyniad	1
Amcanion Strategol a Thematig	17
Pwy all wneud cais	23
Gweithgareddau Cymwys	35
Gweithgareddau Anghymwys	66
Costau Cymwys	76
Costau Anghymwys	89
Cyfradd grant uchaf a'r trothwy grant uchaf	98
Cymorth Gwladwriaethol	120
Dewis prosiectau llwyddiannus	123
Gofynion allweddol	125
Dangosyddion ac Adrodd	128
Themâu Trawsbynciol	164
Sut mae gwneud cais	167
Amodau Grant	174
Talu Grant	176
Monitro Prosiectau	183
Diwedd Rhaglen EMFF	187
Gweithdrefn Apelio	188
Gweithdrefn Gwyno	190

RHAGARWEINIAD

1. Mae'r Nodiadau Cyfarwyddyd hyn yn egluro Cymorth ar gyfer Dyframaethu Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop - a'r math o brosiectau a buddsoddiadau a allai fod yn gymwys am gymorth grant. Darllenwch nhw'n ofalus. Os ydych chi'n credu wedyn y gallai eich cynlluniau buddsoddi neu brosiect fod yn gymwys am grant a'ch bod am wneud cais am gymorth, darllenwch adran "Sut mae Gwneud Cais" y Nodiadau Canllaw hyn a'r Canllawiau 'Sut mae Gwneud Cais' atodol.
2. Mae cymorth grant ar gael o dan raglen EMFF 2014-2020. Bydd y rhaglen yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion canlynol:
 - hybu pysgodfeydd cystadleuol, sy'n amgylcheddol gynaliadwy, yn economaidd hyfyw ac yn gymdeithasol gyfrifol
 - meithrin y broses o roi'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ar waith
 - hybu datblygiad tiriogaethol cytbwys a chynhwysol ardaloedd pysgodfeydd
 - meithrin y gwaith o ddatblygu a gweithredu Polisi Morol Integredig (IMP) yr Undeb mewn modd sy'n gydnaws â'r polisi cydlyniant ac â'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin.
3. Ni fydd cyflawni'r amcanion hynny'n cynyddu capasiti pysgota cwch nac yn cynyddu gallu cwch i ddod o hyd i bysgod.
4. Dylid defnyddio'r canllawiau hyn ar gyfer prosiectau a buddsoddiadau sy'n gysylltiedig ag:
 - ysgogi arloesi mewn dyframaethu
 - cefnogi buddsoddiadau cynhyrchol a gyrru twf mewn prosiectau dyframaethu
 - gwella perfformiad cyffredinol a chystadleurwydd ffermydd dyframaethu, a lliniaru effaith amgylcheddol eu gweithrediadau drwy reolaeth, cymorth a gwasanaethau cynghori
 - hyrwyddo cyfalaf dynol a rhwydweithio mewn dyframaeth
 - cyfrannu at ddatblygu safleoedd a seilwaith dyframaeth a lliniaru effaith amgylcheddol eu gweithrediadau
 - meithrin entrepreneuriaeth mewn dyframaethu drwy sefydlu mentrau dyframaethu bach a micro cynaliadwy gan ffermwyr dyframaethu newydd
 - meithrin datblygiad dyframaeth sy'n darparu gwasanaethau amgylcheddol.
5. Dyframaethu yw ffermio organebau dyfrol mewn dyfroedd mewndirol a morol, sy'n cynnwys ymyrryd yn y broses fagu i wella cynhyrchu, a pherchnogaeth unigol neu gorfforaethol o'r stoc sy'n cael ei drin. Rhaid cael:

- ymyriad yn y broses fagu i wella cynhyrchu
 - perchnogaeth unigol neu gorfforaethol o'r stoc sy'n cael ei feithrin.
6. Mae EMFF yn bwysig i'r diwydiant dyframaethu, ac i bysgodfeydd a chymunedau arfordirol yn ehangach, gan y bydd yn helpu i gefnogi cynaliadwyedd hirdymor y sector a thwf economaidd yr ardal.
 7. Y ffocws ar gyfer Cymru yw manteisio ar botensial dyframaethu morol a mewndirol i ddarparu rhagor o gynhyrchu a gwerth ychwanegol o'n hadnoddau naturiol.
 8. Lle bo'n berthnasol, rhaid i ymgeiswyr ddangos bod yna farchnad hyfyw ar gyfer eu cynnyrch/cynhyrchion ac na fyddai'r prosiect yn mynd rhagddo heb y grant.
 9. Yn benodol, ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â datblygu, treialu neu gynhyrchu cynhyrchion dyframaeth, ni roddir cymorth oni bai y dangosir yn glir (e.e. mewn adroddiad marchnata annibynnol) bod rhagolygon da a chynaliadwy o'r farchnad yn bodoli ar gyfer y cynnyrch. **Rhaid** i entrepreneuriaid sy'n dod i'r sector ddarparu adroddiad marchnata annibynnol.
 10. Lle mae prosiectau yn cynnwys buddsoddiadau mewn cyfarpar neu seilwaith, gan sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion yn y dyfodol yn ymwneud â'r amgylchedd, iechyd pobl neu anifeiliaid, glanweithdra neu les anifeiliaid dan gyfraith yr Undeb, gall cymorth gael ei roi hyd at y dyddiad y daw gofynion o'r fath yn orfodol ar gyfer y mentrau.
 11. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau bod prosiectau neu fuddsoddiadau arfaethedig yn dechnegol ddichonadwy, yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch perthnasol ac unrhyw ofynion diogelwch eraill sy'n benodol i'r prosiect.
 12. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau bod unrhyw offer a brynir gyda chyllid EMFF yn bodloni'r holl ofynion cyfreithiol angenrheidiol. Os daw offer a brynir wedyn yn anghyfreithlon neu os daw i ben, yr ymgeisydd ei hun sy'n gyfrifol am unrhyw risg; ni chaniateir gwneud unrhyw ad-daliadau neu hawliadau yn erbyn y cynllun.
 13. Bydd Entrepreneuriaid sy'n dod i mewn i'r sector yn darparu cynllun busnes a, pan fydd swm y buddsoddiadau yn fwy na €50,000, astudiaeth dichonoldeb gan gynnwys asesiad amgylcheddol o'r gweithrediadau.
 14. Mae'r Rhaglen yn ddewisol a byddai swm y grant a gynigir yn gysylltiedig ag amgylchiadau unigol. Yr **isafswm angenrheidiol** fyddai hynny bob tro i alluogi'r prosiect i fynd rhagddo.

15. Dim ond amlinelliad o'r Rhaglen a'r modd y mae'n cael ei gweithredu yw hwn, gallai'r rheolau manwl ar gyfer meini prawf cymhwyster newid.

MESURAU PENODOL

16. Mae'r Nodyn Cyfarwyddyd hyn yn ymwneud â'r Mesurau EMFF a ganlyn:

- Mesur II.1: Erthygl 47 – Arloesi
- Mesur II.2: Erthygl 48.1.a-d, f-h - Buddsoddiadau cynhyrchol mewn dyframaethu
- Mesur II.3: Erthygl 48.1.e, i, j - Buddsoddiadau cynhyrchol mewn dyframaethu - effeithlonrwydd adnoddau, lleihau defnydd o ddŵr a chemegau, systemau ailgylchredeg yn lleihau defnyddio dŵr cymaint ag y bo modd
- Mesur II.5: Erthygl 49 - Rheoli, cymorth a gwasanaethau cynghori ar gyfer ffermydd dyframaethu
- Mesur II.6: Erthygl 50 – Hyrwyddo cyfalaf dynol a rhwydweithio
- Mesur II.7: Erthygl 51 - Cynyddu potensial safleoedd dyframaethu
- Mesur II.8: Erthygl 52 - Annog ffermwyr dyframaethu newydd sy'n arfer dyframaethu cynaliadwy
- Mesur II.10: Erthygl 54 - dyframaethu yn darparu gwasanaethau amgylcheddol.

AMCANION STRATEGOL A THEMATIG

17. Nod EMFF yw cefnogi datblygu cynaliadwy yn y sector pysgota a'r sector dyframaethu a gwarchod yr amgylchedd morol, ynghyd â chefnogi twf a swyddi mewn cymunedau arfordirol, drwy'r canlynol:

- Hybu pysgodfeydd cynaliadwy, arloesol a chystadleuol sy'n effeithlon o ran adnoddau ac yn seiliedig ar wybodaeth:
Canolbwyntio ar arloesi a gwerth ychwanegol, gan hybu pysgodfeydd sy'n amgylcheddol gynaliadwy, yn gystadleuol ac yn effeithlon o ran adnoddau, ac a fydd yn fwy gofalus, yn cynhyrchu llai o wastraff ac yn gwneud llai o ddifrod i ecosystemau morol
- Meithrin dyframaeth cynaliadwy, arloesol a chystadleuol sy'n effeithlon o ran adnoddau ac yn seiliedig ar wybodaeth:
Ar gyfer sector dyframaeth sy'n amgylcheddol gynaliadwy, yn gystadleuol ac yn effeithlon o ran adnoddau; er mwyn helpu busnesau o'r fath i ddod yn economaidd hyfyw ac yn gystadleuol
- Meithrin y broses o roi'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ar waith:
Cefnogi'r broses o roi'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ar waith drwy gasglu a rheoli data i wella gwybodaeth wyddonol. Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith o fonitro, rheoli a gorfodi deddfwriaeth pysgodfeydd hefyd

- Cynyddu cyflogaeth a chydlyniant tiriogaethol:
Cynyddu nifer y swyddi a hybu twf economaidd a chynhwysiant cymdeithasol mewn cymunedau sy'n ddibynnol ar bysgota drwy ddatblygu lleol a arweinir gan gymunedau
- Meithrin marchnata a phrosesu:
Gwellu marchnata a phrosesu ar gyfer cynhyrchion dyframaeth a physgodfeydd
- Meithrin y broses o roi'r Polisi Morol Integredig ar waith: Cefnogi ymagwedd fwy cydlynol at faterion morol.

18. Mae'r prif flaenoriaethau ar gyfer EMFF yng Nghymru yn cynnwys:

- hwyluso'r broses o roi'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ar waith, yn cynnwys y rhwymedigaeth lanio
- manteisio ar botensial dyframaethu
- gwella diogelwch y diwydiant pysgota
- annog partneriaethau rhwng pysgotwyr a sefydliadau gwyddonol
- datblygu lleol a arweinir gan y gymuned
- ychwanegu rhagor o werth at bysgod Cymru
- annog pobl i ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth yn y diwydiant.

19. Rhaid i'r holl brosiectau a gefnogir drwy Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESI) yn cynnwys EMFF gyfrannu at gyflawni un neu fwy o'r amcanion polisi strategol neu'r amcanion thematig. Gallai'r rhain gynnwys egwyddorion llorweddol lefel rhaglen (Themâu trawsbynciol). Gallai'r prosiectau gyfrannu at nifer o amcanion o'r fath ac mae'n rhaid adrodd ar gynnydd o ran cyflawni'r amcanion hynny pan gyflwynir pob cais am grant.

20. Mae Erthygl 45 o Reoliad Rhif 508/2014 (UE) yn egluro y bydd gweithgaredd Datblygu Cynaliadwy Dyframaethu dan EMFF yn cyfrannu at lwyddiant amcanion penodol o dan Flaenoriaeth yr Undeb a nodir yn Erthygl 6(2) o'r un Rheoliad.

21. Mae Erthygl 6(2) yn berthnasol i Erthyglau 47, 48, 49, 50, 51, 52 a 54 gan ei fod yn pennu: Meithrin dyframaethu arloesol, cystadleuol sy'n amgylcheddol gynaliadwy, yn effeithlon o ran adnoddau ac yn seiliedig ar wybodaeth drwy fynd ati i gyflawni'r amcanion penodol a ganlyn:

- (a) Darparu cymorth i gryfhau datblygiad technolegol, arloesi a throsglwyddo gwybodaeth
- (b) Gwellu natur gystadleuol a hyfywedd mentrau dyframaethu, gan gynnwys gwella diogelwch ac amodau gwaith, yn enwedig Busnesau Bach a Chanolig
- (c) Diogelu ac adfer bioamrywiaeth ddyfrol a gwella ecosystemau sy'n gysylltiedig â dyframaeth a hyrwyddo dyframaethu effeithlon o ran adnoddau

- (d) Hyrwyddo dyframaethu sydd â lefel uchel o ddiogelu'r amgylchedd, a hyrwyddo iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch y cyhoedd
- (e) Datblygu hyfforddiant proffesiynol, sgiliau proffesiynol newydd a dysgu gydol oes
22. At hyn, mae'n rhaid i brosiectau fynd i'r afael ag un neu fwy o'r Themâu Trawsbynciol sydd wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Weithredol lle bo'n briodol gwneud hynny yng nghyd-destun y gweithgareddau y disgwylir iddynt gael eu cyflawni a'r allbynnau neu'r canlyniadau disgwylidig. Y Themâu Trawsbynciol yw:
- Hyrwyddo cydraddoldeb rhwng dynion a merched a pheidio â gwahaniaethu
 - Datblygu cynaliadwy.

PWY ALL WNEUD CAIS

23. Mae cymorth wedi ei gyfyngu i fentrau dyframaethu¹, **oni nodir fel arall ym mharagraffau 24-31**. Os ydych yn ansicr a ydych yn gymwys i wneud cais am gymorth dan Fesur penodol, cysylltwch â Llywodraeth Cymru i drafod cyn gwneud cais am gyllid.

Mesur II.1: Erthygl 47 – Arloesi

24. Yn ychwanegol at ddarpariaethau paragraff 23, bydd prosiectau yn cael eu cynnal gan gyrff gwyddonol neu dechnegol cyhoeddus neu breifat, a gydnabyddir gan yr Aelod-wladwriaeth, neu mewn cydweithrediad â chyrff o'r fath.

Mesur II.5: Erthygl 49 - Rheoli, cymorth a gwasanaethau cynghori ar gyfer ffermydd dyframaethu

25. Gan randdirymu darpariaethau paragraff 23, bydd cymorth i sefydlu rheolaeth, cymorth a gwasanaethau cynghori ar gyfer ffermydd dyframaethu yn cael ei roi yn benodol i gyrff cyfraith gyhoeddus neu endidau eraill a ddewiswyd gan Lywodraeth Cymru i sefydlu'r gwasanaethau cynghori ffermwyr.
26. Bydd cymorth i brynu gwasanaethau cynghori ffermwyr o natur dechnegol, gwyddonol, cyfreithiol, amgylcheddol neu economaidd yn cael ei roi i fusnesau bach a chanolig dyframaethu neu sefydliadau dyframaeth, gan gynnwys sefydliadau cynhyrchwyr dyframaethu a chymdeithasau sefydliadau dyframaeth.

¹ Mae menter yn cael ei hystyried fel unrhyw endid sy'n ymwneud â gweithgarwch economaidd, heb ystyried ei ffurf gyfreithiol.

Mesur II.6: Erthygl 50 - Hyrwyddo cyfalaf dynol a rhwydweithio

27. Yn ychwanegol at ddarpariaethau paragraff 23, rhoddir cymorth hefyd i sefydliadau cyhoeddus neu led-gyhoeddus ac i sefydliadau eraill a gydnabyddir gan Lywodraeth Cymru. Gellir rhoi cymorth hefyd i wŷr/gwragedd ffermwyr dyframaethu hunangyflogedig neu, i'r graddau y'u cydnabyddir gan y gyfraith genedlaethol, i bartneriaid bywyd ffermwyr dyframaethu hunangyflogedig.
28. Gall ffermwyr dyframaethu newydd sy'n ymuno â'r sector elwa ar gymorth drwy'r Mesur hwn er mwyn cael sgiliau proffesiynol digonol.
29. Gan randdirymu darpariaethau paragraff 23, o ran cymorth ar gyfer hyfforddiant proffesiynol, dysgu gydol oes, lledaenu gwybodaeth wyddonol a thechnegol ac arferion arloesol, caffael sgiliau proffesiynol newydd mewn dyframaeth ac o ran lleihau effaith amgylcheddol gweithrediadau dyframaethu; ni fydd yn cael ei roi i fentrau dyframaeth mawr, oni bai eu bod yn ymwneud â rhannu gwybodaeth gyda busnesau bach a chanolig.

Mesur II.7: Erthygl 51 - Cynyddu potensial safleoedd dyframaethu

30. Gan randdirymu darpariaethau paragraff 23, bydd buddiolwyr yn ddiamod yn gyrrff cyfraith gyhoeddus neu gyrrff preifat yr ymddiriedodd Llywodraeth Cymru ynddynt i ymgymryd â'r gweithgareddau cymwys y cyfeirir atynt ym mharagraffau 57-58.

Mesur II.8: Erthygl 52 - Annog ffermwyr dyframaethu newydd sy'n arfer dyframaethu cynaliadwy

31. Gan randdirymu darpariaethau paragraff 23, rhoddir cymorth i ffermwyr dyframaethu newydd sy'n ymuno â'r sector ar yr amod eu bod yn cyflawni pob un o'r gofynion a ganlyn:
 - meddu ar sgiliau proffesiynol a chymhwysedd digonol
 - wedi sefydlu menter dyframaeth micro neu fach am y tro cyntaf, fel rheolwyr y fenter honno
 - wedi cyflwyno cynllun busnes ar gyfer datblygu eu gweithgareddau dyframaethu.

Diffiniad o Fusnes Bach a Chanolig

32. Mae Busnes Bach a Chanolig yn cyflogi llai na 250 o gyflogeion (yn seiliedig ar gyfwerth ag amser llawn) ac mae ganddo drosiant blyneddol heb fod yn fwy na 50 miliwn ewro a/neu gyfanswm blyneddol y fantolen heb fod yn fwy na 43 miliwn ewro. Dylid trin staff rhan amser a thymhorol fel ffracsiwn o gyfwerth ag amser llawn.

- mae Busnesau Bach a Chanolig yn cynnwys 3 is-gategori o fentrau: micro, bach a chanolig
- mae micro fentrau'n cyflogi llai na 10 cyflogai, mae mentrau bychain yn cyflogi llai na 50 cyflogai, ac mae mentrau canolig yn cyflogi llai na 250 cyflogai
- Mae maint y fenter hefyd yn cyfeirio at y trosiant blyneddol a chyfanswm blyneddol y fantolen mewn rhai sefyllfaoedd.

Am ddiffiniad llawn gweler ganllaw defnyddwyr a datganiad model y Comisiwn Ewropeaidd, 'The New SME definition'².

Pob Mesur

33. Ni dderbynnir ceisiadau gan sefydliadau, busnesau nac unigolion sydd wedi'u collfarnu o dwyll o dan naill ai Cronfa Pysgodfeydd Ewrop (EFF) neu EMFF.
34. Ni dderbynnir ceisiadau gan sefydliadau, busnesau nac unigolion sydd wedi'u collfarnu o droseddau y mae Llywodraeth Cymru neu'r Undeb Ewropeaidd (UE) yn eu hystyried yn 'dor-rheolau difrifol' neu'n dwyll, yn y 12 mis cyn gwneud cais. Gweler y Nodiadau Cyfarwyddyd ar wahân ar Dor-rheolau Difrifol a Thwyll.

GWEITHGAREDDAU CYMWYS

Pob Mesur

35. Cyfeiriwch at y Cyflwyniad i'r Nodyn Canllaw hwn ar gyfer egwyddorion allweddol a gofynion cymhwysedd sy'n berthnasol i bob Mesur.

Mesur II.1: Erthygl 47 – Arloesi

36. Bydd y gweithgareddau yn cefnogi'r angen am arloesi ac ymchwil i leihau effeithiau negyddol ar y diwydiant a datblygiadau technegol sydd o gymorth i ehangu. Bydd y gweithgareddau yn helpu i ehangu cynhyrchu (e.e. drwy ymchwil i gyd-leoli â safleoedd defnydd morol eraill fel ffermydd gwynt) gan wella cynaliadwyedd y sector yr un pryd. Bydd y dull hwn hefyd yn ceisio nodi capasiti cynhyrchu cynaliadwy ychwanegol a safleoedd newydd (gan gynnwys y rhai mewn ardaloedd mwy agored).
37. Bydd arloesi hefyd yn gyrru datblygiad dyframaethu di-fwyd e.e. agronomeg a biodanwydd morol.

² Yr Undeb Ewropeaidd, (2015), Canllaw defnyddwyr i'r diffiniad o Fusnesau Bach a Chanolig, yr Undeb Ewropeaidd, Gwlad Belg, (yn deillio o): Argymhelliad y Comisiwn (UE) ar 6ed Mai 2003 ynghylch y diffiniad o fentrau micro, bach a chanolig eu maint (OJ 124, 20.5.2003, Atodiad 1, t. 4-6)

38. Y gweithgareddau cymwys yw:

- prosiectau sy'n datblygu gwybodaeth dechnegol, wyddonol neu sefydliadol mewn ffermydd dyframaethu, sydd, yn benodol, yn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd, yn lleihau dibyniaeth ar flawd pysgod ac olew pysgod, yn meithrin defnydd cynaliadwy o adnoddau mewn dyframaeth, yn gwella lles anifeiliaid neu'n hwyluso dulliau cynhyrchu cynaliadwy newydd
- prosiectau sy'n datblygu neu'n cyflwyno rhywogaethau dyframaethu newydd ar y farchnad gyda photensial da, cynnyrch newydd neu sylweddol well, prosesau newydd neu well, neu systemau rheoli a sefydliadol newydd neu well
- prosiectau sy'n archwilio ymarferoldeb technegol neu economaidd cynhyrchion neu brosesau arloesol.

39. Bydd pob prosiect yn cael ei gynnal gan gyrff gwyddonol neu dechnegol cyhoeddus neu breifat, neu ar y cyd â chyrff o'r fath, a gydnabyddir gan yr AelodWladwriaeth, a fydd yn dilysu canlyniadau prosiectau o'r fath.

40. Bydd canlyniadau prosiectau sy'n derbyn cymorth yn cael digon o gyhoeddusrwydd gan Lywodraeth Cymru, yn unol ag Erthygl 119 Rheoliad (UE) 508/2014 ar Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop.

Mesur II.2: Erthygl 48.1.a-d, f-h - Buddsoddiadau cynhyrchol mewn dyframaethu a

Mesur II.3: Erthygl 48.1.e, i, j - Buddsoddiadau cynhyrchol mewn dyframaethu - effeithlonrwydd adnoddau, lleihau defnydd o ddŵr a chemegau, systemau ailgylchredeg yn lleihau defnyddio dŵr cymaint ag y bo modd

41. Cymorth dan Fesur II.2: Erthygl 48.1.a-d, f-h a Mesur II.3: Gellir caniatáu erthygl 48.1.e, i, j ar gyfer cynnydd mewn cynhyrchu a/neu foderneiddio mentrau dyframaethu sy'n bodoli'n barod, neu ar gyfer y gwaith o lunio rhai newydd, ar yr amod bod y datblygiad yn gyson â Chynllun Cenedlaethol Amflwydd y Deyrnas Unedig ar gyfer Datblygu Dyframaeth Gynaliadwy (MANP), sydd i'w weld yma:

<https://www.gov.uk/government/publications/sustainable-aquaculture-the-unitedkingdom-multiannual-national-plan-manp>

Gweler paragraffau 42-48 am fanylion am weithgareddau cymwys o dan pob Mesur.

Mesur II.2: Erthygl 48.1.a-d, f-h - Buddsoddiadau cynhyrchol mewn dyframaethu

42. Bydd y gweithgareddau yn cefnogi ehangu'r diwydiant dyframaethu drwy welliannau o ran moderneiddio, amodau gweithio a diogelwch, defnyddio adnoddau yn effeithlon, ac iechyd ac ansawdd stociau.

43. Bydd y cyllid hefyd yn cefnogi mwy o elw yn y sector drwy welliannau o ran rheoli ysglyfaethwyr, potensial meithrin rhywogaethau newydd, agor lleoliadau dyframaethu newydd ac arallgyfeirio incwm drwy weithgareddau cyflenwol.
44. Y gweithgareddau cymwys yw:
- buddsoddiadau cynhyrchol mewn dyframaethu (er enghraifft, buddsoddiadau tuag at y nodau a amlinellir ym mharagraffau 42-43; ynghylch neu'n ymwneud â chynhyrchu stoc dyframaethu; a allai arwain at ganlyniadau / buddiannau ffafriol neu effeithiol)
 - arallgyfeirio cynhyrchu dyframaethu a rhywogaethau a gaiff eu meithrin
 - moderneiddio unedau dyframaeth, gan gynnwys gwella amodau gwaith a diogelwch gweithwyr dyframaethu
 - gwelliannau a moderneiddio sy'n gysylltiedig ag iechyd a lles anifeiliaid, gan gynnwys prynu cyfarpar wedi ei anelu at ddiogelu ffermydd rhag ysglyfaethwyr gwyllt
 - buddsoddiadau mewn gwella ansawdd cynhyrchion dyframaethu, neu ychwanegu at eu gwerth
 - arallgyfeirio incwm mentrau dyframaethu drwy ddatblygu gweithgareddau cyflenwol.
45. Ni roddir cymorth ar gyfer arallgyfeirio incwm cyflenwol i fentrau dyframaethu oni bai bod y gweithgareddau cyflenwol yn ymwneud â busnes dyframaeth craidd y fenter, gan gynnwys twristiaeth pysgota, gwasanaethau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â dyframaethu neu weithgareddau addysgol sy'n ymwneud â dyframaethu.
46. Gellid rhoi rhywfaint o gymorth cyfyngedig tuag at adfer pyllau neu forlynnoedd dyframaethu sy'n bodoli'n barod drwy gael gwared ar silt, neu fuddsoddiadau wedi eu hanelu at atal dyddodion silt; fodd bynnag, nid yw hyn yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth ar hyn o bryd.

Mesur II.3: Erthygl 48.1.e, i, j - Buddsoddiadau cynhyrchol mewn dyframaethu - effeithlonrwydd adnoddau, lleihau defnydd o ddŵr a chemegau, systemau ailgylchredeg yn lleihau defnyddio dŵr cymaint ag y bo modd

47. Bydd gweithgareddau yn cefnogi'r angen am arloesi a moderneiddio wrth ddatblygu dyframaeth gynaliadwy (nid dyframaeth draddodiadol o reidrwydd). Gwelliannau o ran ansawdd a gwerth ychwanegol fydd gyrwyr allweddol gweithgarwch, a bydd cymorth yn cyflwyno prosiectau a fydd yn galluogi cynhyrchwyr i leihau'r defnydd o ddŵr, gwella ei ansawdd a chynyddu effeithlonrwydd.
48. Y gweithgareddau cymwys yw:

- buddsoddiadau sy'n lleihau effaith negyddol neu wella effeithiau cadarnhaol ar yr amgylchedd a chynyddu effeithlonrwydd adnoddau
- buddsoddiadau sy'n arwain at ostyngiad sylweddol yn effaith mentrau dyframaethu ar ddefnydd ac ansawdd dŵr, yn enwedig drwy leihau faint o ddŵr neu gemegau, gwrthfotigau a meddyginiaethau eraill a ddefnyddir, neu drwy wella ansawdd dŵr allbwn, gan gynnwys drwy ddefnyddio systemau dyframaethu aml-droffig
- hyrwyddo systemau dyframaethu caeedig lle mae cynhyrchion dyframaethu yn cael eu ffermio mewn systemau ailgylchredeg caeedig, a thrwy hynny'n leihau'r defnydd o ddŵr.

Mesur II.5: Erthygl 49 - Rheoli, cymorth a gwasanaethau cynghori ar gyfer ffermydd dyframaethu

49. Er mwyn gwella perfformiad cyffredinol a chystadleurwydd ffermydd dyframaethu, ac i leihau'r effaith negyddol ar yr amgylchedd, gall cymorth gael ei roi ar gyfer:
- sefydlu rheoli, cymorth a gwasanaethau cynghori ar gyfer ffermydd dyframaethu
 - prynu gwasanaethau cynghori ffermwyr o natur dechnegol, gwyddonol, cyfreithiol, amgylcheddol neu economaidd.
50. Mae gwasanaethau cynghori ffermwyr o natur dechnegol, gwyddonol, cyfreithiol, amgylcheddol neu economaidd yn cwmpasu:
- yr anghenion rheoli i alluogi ffermydd dyframaethu i gydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol yr Undeb Ewropeaidd a chenedlaethol, yn ogystal â gofynion cynllunio gofodol morol
 - asesiad o effaith amgylcheddol fel y cyfeirir ato yng Nghyfarwydddeb yr Asesiad Amgylcheddol Strategol (Cyfarwydddeb 2001/42/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor) a'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd (Cyfarwydddeb 92/43/EEC)
 - yr anghenion rheoli i alluogi ffermydd dyframaethu i gydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a lles anifeiliaid dyfrol neu ddeddfwriaeth iechyd cyhoeddus yr Undeb Ewropeaidd a chenedlaethol
 - safonau iechyd a diogelwch yn seiliedig ar ddeddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd a chenedlaethol
 - strategaethau marchnata a busnes.
51. Ni chaiff buddiolwyr gymorth fwy nag unwaith y flwyddyn ym mhob categori o wasanaethau cynghori ffermydd y cyfeirir atynt ym mharagraff 50.
52. Bydd y gwasanaethau cynghori ffermwyr y cyfeirir atynt ym mharagraff 50 yn cael eu darparu gan gyrff gwyddonol neu dechnegol, yn ogystal ag endidau sy'n darparu cyngor cyfreithiol neu economaidd sydd â'r cymwyseddau angenrheidiol, yn unol â chydabyddiaeth yr Aelod-wladwriaeth.

53. Mae gofynion penodol a chyfyngiadau yn berthnasol i lywodraethu pa ymgeiswyr sy'n gymwys i gael cymorth i sefydlu gwasanaethau rheoli, cymorth a chynghori ac i gael cymorth i brynu gwasanaethau cynghori ffermwyr. Trowch at adran "Sut mae Gwneud Cais" y Nodyn Canllaw hwn am fanylion.

Mesur II.6: Erthygl 50 - Hyrwyddo cyfalaf dynol a rhwydweithio

54. Bydd gweithgareddau yn ategu datblygu cyfnewid gwybodaeth a chynnal a chadw sgiliau. Bydd prosiectau yn ceisio gwella cydnerthedd y sector drwy gyfnewid profiad ac arferion gorau, hyfforddiant proffesiynol, dysgu gydol oes a lledaenu gwybodaeth wyddonol a thechnegol ac arferion arloesol.
55. Y gweithgareddau cymwys yw:
- hyfforddiant proffesiynol
 - dysgu gydol oes
 - lledaenu gwybodaeth wyddonol a thechnegol ac arferion arloesol
 - caffael sgiliau proffesiynol newydd mewn dyframaeth ac o ran lleihau effaith amgylcheddol prosiectau dyframaethu
 - gwella amodau gwaith a hyrwyddo diogelwch galwedigaethol
 - rhwydweithio a chyfnewid profiadau ac arferion gorau ymysg mentrau dyframaeth neu sefydliadau proffesiynol a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys sefydliadau gwyddonol a thechnegol neu'r rhai sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched.
56. Mae gofynion a chyfyngiadau penodol yn berthnasol sy'n llywodraethu pa ymgeiswyr sy'n gymwys i gael cymorth; trowch at adran 'Pwy all wneud cais' y Nodyn Cyfarwyddyd hwn am fanylion.

Mesur II.7: Erthygl 51 - Cynyddu potensial safleoedd dyframaethu

57. Bydd gweithgareddau yn cefnogi'r angen am gynllunio gofodol cydlynol i nodi'r meysydd mwyaf addas ar gyfer twf yn y sector drwy fapio safleoedd addas. Ochr yn ochr â sicrhau bod gan safleoedd amodau cynhyrchu digonol, bydd cynllunio yn canfod effeithiau amgylcheddol cronus cynhyrchu dyframaeth; gan ategu Mesur II.3: Erthygl 48.1.e, i, j.
58. Y gweithgareddau cymwys yw:
- nodi a mapio'r ardaloedd mwyaf addas ar gyfer datblygu dyframaeth, gan ystyried, pan fo hynny'n berthnasol, y prosesau cynllunio gofodol, a nodi a mapio ardaloedd lle dylid eithrio dyframaeth er mwyn cynnal rôl ardaloedd o'r fath yng ngweithrediad yr ecosystem

- gwella a datblygu cyfleusterau a seilweithiau cymorth sydd eu hangen i gynyddu potensial safleoedd dyframaethu ac i leihau effaith amgylcheddol negyddol dyframaethu, gan gynnwys buddsoddiadau mewn cyfuno tir, cyflenwadau ynni a rheoli dŵr.

59. Mae gofynion a chyfyngiadau penodol yn berthnasol sy'n llywodraethu pa ymgeiswyr sy'n gymwys i gael cymorth; trowch at adran 'Pwy all wneud cais' y Nodyn Cyfarwyddyd hwn am fanylion.

Mesur II.8: Erthygl 52 - Annog ffermwyr dyframaethu newydd sy'n arfer dyframaethu cynaliadwy

60. Bydd y gweithgareddau yn meithrin entrepreneuriaeth mewn dyframaethu, drwy gefnogi sefydlu mentrau dyframaethu cynaliadwy micro neu fach gan ffermwyr dyframaethu newydd, a thrwy hynny'n cefnogi twf cynaliadwy yn y diwydiant yng Nghymru. Dylai datblygiadau fod yn gyson â Chynllun Cenedlaethol Amlflydd y Deyrnas Unedig ar gyfer Datblygu Dyframaethu Cynaliadwy (MANP).

61. Mae gofynion a chyfyngiadau penodol yn berthnasol sy'n llywodraethu pa ymgeiswyr sy'n gymwys i gael cymorth; trowch at adran 'Pwy all wneud cais' y Nodyn Cyfarwyddyd hwn am fanylion.

62. Er mwyn cael sgiliau proffesiynol digonol, gall ffermwyr dyframaethu sy'n ymuno â'r sector elwa ar gymorth dan Fesur II.6: Erthygl 50 ar gyfer:

- hyfforddiant proffesiynol
- dysgu gydol oes
- caffael sgiliau proffesiynol newydd mewn dyframaeth ac o ran lleihau effaith amgylcheddol prosiectau dyframaethu.

Mesur II.10: Erthygl 54 - dyframaethu yn darparu gwasanaethau amgylcheddol

63. Bydd y gweithgareddau'n cefnogi prosiectau sy'n cefnogi amcanion amgylcheddol drwy raglenni cadwraeth ac atgynhyrchu ar gyfer anifeiliaid dyfrol.

64. Y gweithgareddau cymwys yw:

- o ran costau sy'n uniongyrchol gysylltiedig, cyfranogi mewn cadwraeth ac atgynhyrchu anifeiliaid dyfrol y tu allan i'w cynefin, o fewn fframwaith o raglenni cadwraeth ac adfer bioamrywiaeth a ddatblygwyd gan awdurdodau cyhoeddus, neu dan eu goruchwyliaeth.

65. Bydd canlyniadau prosiectau sy'n derbyn cymorth yn cael digon o gyhoeddusrwydd gan Lywodraeth Cymru, yn unol ag Erthygl 119 Rheoliad (UE) 508/2014 ar Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop.

GWEITHGAREDDAU ANGHYMWYS

Pob Mesur

66. Mae nifer o fuddsoddiadau nad ydynt yn gymwys am gymorth EMFF:

- buddsoddiadau i gynyddu'r ymdrech pysgota, capasiti cwch neu allu cwch i ddod o hyd i bysgod
- buddsoddiadau i gynyddu'r capasiti dal pysgod
- buddsoddiadau i adeiladu cychod pysgota neu eu mewnforio
- buddsoddiadau i roi'r gorau i weithgareddau pysgota dros dro neu'n barhaol (oni ddarperir ar eu cyfer fel arall yn rheoliadau EMFF)
- buddsoddiadau ar gyfer pysgota archwiliadol
- buddsoddiadau i drosglwyddo perchenogaeth busnes
- buddsoddiadau i gefnogi ailstocio uniongyrchol oni bai bod deddf gyfreithiol yr Undeb Ewropeaidd yn darparu'n benodol ar gyfer hyn fel mesur cadwraeth neu yn achos ailstocio arbrofol
- prynu neu adeiladu cychod pysgota mewndirol
- adeiladu Deorfeydd i Gimychiaid
- ffermio organebau wedi eu haddasu'n enetig
- eitemau a gwasanaethau sydd yn ofynion statudol neu orfodol o dan y gyfraith ac is-ddeddfau yn unig
- costau cynnal a chadw ataliol neu sydd wedi'u trefnu ar gyfer unrhyw ddarn o gyfarpar sy'n sicrhau bod dyfais yn gweithio'n iawn
- gweithgareddau sy'n gysylltiedig â physgota hamdden yn y môr neu mewn dŵr croyw
- treillio pwls
- prosiectau sy'n torri amodau gofynion deddfwriaethol Cenedlaethol neu'r Undeb Ewropeaidd
- rhwymedigaethau safonol y diwydiant fel gofynion rheoli statudol
- unrhyw eitemau neu weithgareddau unigol neu ar wahân y mae buddiolwr eisoes wedi cael neu'n bwriadu cael arian ar eu cyfer gan yr Undeb Ewropeaidd heblaw EMFF.

67. Ni roddir cymorth i entrepreneuriaid sy'n dod i'r sector oni bai y dangosir yn glir mewn adroddiad marchnata annibynnol bod rhagolygon da a chynaliadwy o'r farchnad yn bodoli ar gyfer y cynnyrch.

68. Ni roddir cymorth i brosiectau dyframaeth mewn ardaloedd gwarchodedig morol, os penderfynwyd gan awdurdod cymwys yr Aelod-wladwriaeth, ar sail asesiad o'r effaith amgylcheddol, y byddai'r prosiect yn arwain at effaith amgylcheddol negyddol sylweddol na ellir ei lleddfu'n ddigonol.

Mesur II.1: Erthygl 47 – Arloesi

Rhif y Fersiwn: 3

Dyddiad Cyhoeddi: Mai 2018

Cyhoeddwyd gan: Lywodraeth Cymru Tudalen 15 o 47

69. Yn ychwanegol at y darpariaethau ym mharagraffau 66-68 uchod, nid yw'r gweithgareddau a ganlyn yn gymwys dan Fesur II.1: Erthygl 47:

- prosiectau nad ydynt yn cael eu cynnal gan gyrff gwyddonol neu dechnegol cyhoeddus neu breifat, a gydnabyddir gan yr Aelod-wladwriaeth, neu mewn cydweithrediad â chyrrff o'r fath
- cyllido prosiectau arloesi sy'n bodoli'n barod; er bod cyllido cyfnod neu weithgaredd newydd ar wahân sy'n adeiladu ar brosiect blaenorol neu bresennol yn gymwys.

Mesur II.2: Erthygl 48.1.a-d, f-h - Buddsoddiadau cynhyrchiol mewn dyframaethu a

Mesur II.3: Erthygl 48.1.e, i, j - Buddsoddiadau cynhyrchiol mewn dyframaethu - effeithlonrwydd adnoddau, lleihau defnydd o ddŵr a chemegau, systemau ailgylchredeg yn lleihau defnyddio dŵr cymaint ag y bo modd

70. Yn ychwanegol at y darpariaethau ym mharagraffau 66-68 uchod, nid yw'r gweithgareddau a ganlyn yn gymwys dan Fesur II.2: Erthygl 48.1.a-d, f-h a Mesur II.3: Erthygl 48.1.e, i, j.

- adwerthu (a ddiffinnir fel prynu nwyddau i'w hailwerthu) - gan gynnwys eiddo a cherbydau yn gysylltiedig â busnesau adwerthu
- prynu a moderneiddio llongau oni bai eu bod yn gweithredu'n gyfan gwbl mewn dyfroedd mewndirol ac nad ydynt yn gysylltiedig â thrwydded pysgota masnachol
- cynnydd mewn cynhyrchu a/neu foderneiddio mentrau dyframaethu sy'n bodoli'n barod, neu lunio rhai newydd, lle nad yw'r datblygiad yn gyson â Chynllun Cenedlaethol Amlflwydd y Deyrnas Unedig ar gyfer Datblygu Dyframaeth Gynaliadwy (MANP)
- arallgyfeirio incwm os nad yw'r gweithgareddau cyflenwol yn gysylltiedig â busnes dyframaeth craidd y fenter
- cyfarpar a allai fod yn niweidiol i stociau ac ecosystemau.

Mesur II.5: Erthygl 49 - Rheoli, cymorth a gwasanaethau cynghori ar gyfer ffermydd dyframaethu

71. Yn ychwanegol at y darpariaethau ym mharagraffau 66-68 uchod, nid yw'r gweithgarwch a ganlyn yn gymwys dan Fesur II.5: Erthygl 49:

- costau cynnal darparwyr gwasanaeth ymgynghorol

72. Ni chaiff buddiolwyr gymorth fwy nag unwaith y flwyddyn ym mhob categori o wasanaethau cynghori ffermydd y cyfeirir atynt ym mharagraff 50.

Mesur II.7: Erthygl 51 - Cynyddu potensial safleoedd dyframaethu

73. Yn ychwanegol at y darpariaethau ym mharagraffau 66-68 uchod, nid yw'r gweithgarwch a ganlyn yn gymwys dan Fesur II.7: Erthygl 51:

- camau a gymerwyd ac a weithredwyd gan awdurdodau cymwys dan Erthygl 9(1) Cyfarwyddeb 2009/147/EC neu Erthygl 16(1) Cyfarwyddeb 92/43/EEC, gyda'r nod o atal difrod difrifol i ddyframaeth
- camau a gymerwyd ac a weithredwyd gan awdurdodau cymwys ar ôl canfod cynnydd mewn marwolaethau neu glefydau fel y darperir ar eu cyfer yn Erthygl 10 Cyfarwyddeb y Cyngor 2006/88/EC.

Mesur II.8: Erthygl 52 - Annog ffermwyr dyframaethu newydd sy'n arfer dyframaethu cynaliadwy

74. Yn ychwanegol at y darpariaethau ym mharagraffau 66-68 uchod, nid yw'r gweithgarwch a ganlyn yn gymwys dan Fesur II.8: Erthygl 52:

- datblygiadau nad ydynt yn gyson â Chynllun Cenedlaethol Amlflwydd y Deyrnas Unedig ar gyfer Datblygu Dyframaethu Cynaliadwy (MANP)
- cymorth ar gyfer sefydlu mentrau dyframaethu canolig neu fawr
- hyfforddiant proffesiynol; dysgu gydol oes; caffael sgiliau proffesiynol newydd mewn dyframaeth ac o ran lleihau effaith amgylcheddol prosiectau dyframaethu (gall cymorth gael ei roi dan Fesur II.6 Erthygl 50 ar gyfer y gweithgareddau hyn).

Mesur II.10: Erthygl 54 - dyframaethu yn darparu gwasanaethau amgylcheddol

75. Yn ychwanegol at y darpariaethau ym mharagraffau 66-68 uchod, nid yw'r gweithgarwch a ganlyn yn gymwys dan Fesur II.10: Erthygl 54:

- gweithgareddau y gellir eu cefnogi dim ond drwy iawndal blyneddol ar gyfer costau ychwanegol a/neu incwm a gollir; sef:
- dulliau dyframaeth sy'n gydnaws ag anghenion amgylcheddol penodol ac sy'n amodol ar ofynion rheoli penodol sy'n deillio o ddynodi ardaloedd NATURA 2000 yn unol â Chyfarwyddebau 92/43/EEC a 2009/147/EC
- prosiectau dyframaethu sy'n cynnwys cadwraeth a gwella'r amgylchedd a bioamrywiaeth, a rheoli tirwedd a nodweddion traddodiadol parthau dyframaethu.

COSTAU CYMWYS

Pob Mesur

76. Pan fydd costau sy'n gysylltiedig â phrynu a/neu adnewyddu a/neu addasu unrhyw adeilad yn gymwys dan ofynion cymhwyster penodol y Mesur, rhaid i'r rhain fod yn uniongyrchol angenrheidiol ar gyfer darparu gweithgarwch y prosiect ac yn briodol i raddfa, natur a bwriad y prosiect.

Mesur II.1: Erthygl 47 – Arloesi a

Mesur II.2: Erthygl 48.1.a-d, f-h – Buddsoddiadau cynhyrchiol mewn dyframaethu a

Mesur II.3: Erthygl 48.1.e, i, j - Buddsoddiadau cynhyrchiol mewn dyframaethu - effeithlonrwydd adnoddau, lleihau defnydd o ddŵr a chemegau, systemau ailgylchredeg yn lleihau defnyddio dŵr cymaint ag y bo modd a Mesur II.7: Erthygl 51 - Cynyddu potensial safleoedd dyframaethu a Mesur II.8: Erthygl 52 - Annog ffermwyr dyframaethu newydd sy'n arfer dyframaethu cynaliadwy a Mesur II.10: Erthygl 54 - Dyframaethu yn darparu gwasanaethau amgylcheddol

77. Mae ffioedd ymgynghorwyr a phenseiri, costau cynllunio technegol eraill, arolygon safle a ffioedd proffesiynol; ffioedd a chostau ceisiadau cynllunio; ffioedd am ganiatâd statudol, trwyddedau a chydsyniadau yn gymwys, hyd yn oed os ydynt wedi'u cwblhau a'u prynu cyn derbyn cymeradwyaeth cyn belled eu bod yn hanfodol ar gyfer cyflawni'r prosiect.
78. Mae cyfarpar ail law yn gymwys am gymorth grant (ar gyfer busnesau bach a chanolig yn unig) dim ond os yw'n cydymffurfio â gofynion cymhwyster penodol y Mesur a lle gall yr ymgeisydd ddangos:
- ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch cyfredol
 - ei fod yn addas i'r diben
 - bod ganddo ddisgwyliad oes o bum mlynedd o leiaf.
79. Ni fydd prynu a/neu brydlesu neu siartro cerbydau yn gymwys **oni bai** fod hynny'n cydymffurfio â gofynion cymhwyster penodol y Mesur ac os yw'r cerbyd dan sylw yn cyfrannu'n uniongyrchol at y prosiect ac **nad** yw'n cael ei ddefnyddio gan y buddiolwr ar gyfer unrhyw ddiben arall.

Mesur II.1: Erthygl 47 – Arloesi

80. Yn ychwanegol at y darpariaethau ym mharagraffau 76-79 uchod, gall cymorth dan Fesur II.1: Erthygl 47 gynnwys:

- ffioedd ymgynghorwyr, ffioedd technegol a phroffesiynol eraill; ffioedd am ganiatâd statudol, trwyddedau a chydysniadau
- costau Contractwyr ar gyfer llafur a defnyddio cyfarpar
- costau rhedeg prosiect, gan gynnwys costau staff a rhent ar gyfer eiddo; llogi ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd prosiect rheolaidd; costau offer swyddfa; costau ffôn a/neu'r rhynggrwyd
- costau uniongyrchol i gynnal treialon corfforol angenrheidiol fel rhan o'r prosiect. Gall hyn gynnwys llogi neu siartro cyfleusterau/cyfarpar arbenigol a chyllido gwasanaethau ansafonol
- defnyddiau traul (eitemau sy'n cael eu dileu fel rheol o fewn blwyddyn) ar gyfer ymgymryd â gweithgarwch prosiect neu dreial
- costau samplo a dadansoddi rhesymol
- costau teithio a chynhaliaeth rhesymol er mwyn galluogi arbenigwyr i ymweld â safleoedd prosiectau. Gall hyn gynnwys aros dros nos lle bo angen hynny a lle bo modd ei gyfiawnhau. Mae'n rhaid costio'r eitemau hyn yn glir a'u cyfiawnhau yn unol â chynllun y prosiect i gefnogi'r ffurflen gais
- costau hyrwyddo, lle gellir eu cyfiawnhau, wrth gyhoeddi canlyniadau'r prosiect.

81. Gall cymorth, os gellir dangos ei fod yn angenrheidiol yn uniongyrchol ar gyfer cyflwyno'r prosiect, ac yn uniongyrchol gysylltiedig â chyflwyno'r prosiect, gwmpasu asedau diriaethol fel eitemau o beiriannau a chyfarpar, ac asedau anniriaethol fel meddalwedd cyfrifiadurol, hawliau patent a thrwyddedau a ffioedd technegol ac ymgynghori:

- prynu a gosod eitemau o beiriannau a chyfarpar, gan gynnwys cerbydau, hyd at werth marchnad yr ased
- caffael neu ddatblygu meddalwedd cyfrifiadurol a chaffael patentau, trwyddedau, hawlfreintiau, nodau masnach.

Mesur II.2: Erthygl 48.1.a-d, f-h - Buddsoddiadau cynhyrchiol mewn dyframaethu a

Mesur II.3: Erthygl 48.1.e, i, j - Buddsoddiadau cynhyrchiol mewn dyframaethu - effeithlonrwydd adnoddau, lleihau defnydd o ddŵr a chemegau, systemau ailgylchredeg yn lleihau defnyddio dŵr cymaint ag y bo modd

82. Yn ychwanegol at y darpariaethau ym mharagraffau 76-79 uchod, gall cymorth dan Fesur II.2: Erthygl 48.1.a-d, f-h a Mesur II.3: Erthygl 48.1.e, i, j gwmpasu asedau diriaethol fel tir, adeiladau, peiriannau a chyfarpar ac asedau anniriaethol fel meddalwedd cyfrifiadurol, hawliau patent a thrwyddedau a ffioedd technegol ac ymgynghori:

- adeiladu, caffael, neu wella eiddo ansymudol, gyda thir ond yn gymwys i'r graddau nad yw'n uwch na 10% o gyfanswm costau cymwys y prosiect buddsoddi
- prynu a gosod peiriannau a chyfarpar hyd at werth marchnad yr ased

- costau cyffredinol sy'n gysylltiedig â gwariant y cyfeirir atynt yn y ddau bwynt bwled uchod, fel ffioedd pensaer, peiriannydd ac ymgynghori, costau dylunio technegol, ffioedd sy'n gysylltiedig â chynghor ar gynaliadwyedd amgylcheddol ac economaidd heb fod yn fwy na 12% o gyfanswm costau cymwys y prosiect buddsoddi;
- costau cyffredinol gosod gwaith cyfalaf
- costau Contractwyr ar gyfer llafur a defnyddio cyfarpar
- lle mae'r rhain wedi eu cysylltu'n uniongyrchol â darparu gweithgareddau cymwys ac yn angenrheidiol ar gyfer gwneud hynny - costau cyffredinol sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau cynhyrchiol mewn systemau caeedig dyframaeth, systemau dyframaethu aml-droffig, pyllau neu lagwnau dyframaethu
- caffael neu ddatblygu meddalwedd cyfrifiadurol a chaffael patentau, trwyddedau, hawlfreintiau, nodau masnach
- ar gyfer Mesur II.2: Erthygl 48.1.a-d, f-h **yn unig** - lle mae'r rhain wedi eu cysylltu'n uniongyrchol â darparu gweithgareddau cymwys ac yn angenrheidiol ar gyfer gwneud hynny - costau angenrheidiol ar gyfer astudiaethau paratoi, ymchwil neu ymarferoldeb, gan gynnwys mapio neu ddadansoddi bylchau, i gefnogi arallgyfeirio incwm mentrau dyframaethu neu i ychwanegu gwerth at gynnyrch dyframaethu.

Mesur II.5: Erthygl 49 - Rheoli, cymorth a gwasanaethau cynghori ar gyfer ffermydd dyframaethu

83. Gall cymorth dan Fesur II.5: Erthygl 49 gynnwys:

- costau refeniw sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â gwasanaethau cynghori ar gyfer ffermydd dyframaethu ac yn angenrheidiol ar eu cyfer, gan gynnwys, o dan ddarpariaethau paragraff 84, asedau diriaethol bychain fel prynu a gosod eitemau bychain o gyfarpar sy'n costio llai na'r trothwy cyfalafu y cytunwyd arno ac nad yw felly'n cyfateb i wariant cyfalaf, hyd at werth marchnad yr ased (gweler paragraffau 78 ac 84); ac asedau anniriaethol fel meddalwedd cyfrifiadurol, hawliau patent a thrwyddedau
- costau refeniw sy'n gysylltiedig â phrynu gwasanaethau cynghori a chynghor proffesiynol, fel ffioedd proffesiynol, technegol ac ymgynghori.

Nid yw gwariant cyfalaf yn gymwys.

84. Diffinnir gwariant cyfalaf fel rheol yn unol â throthwy cyfalafu'r buddiolwr. Diffinnir hyn fel rheol fel unrhyw eitem unigol sy'n costio dros £5,000 (a/neu sydd ag oes ddefnyddiol o flwyddyn neu fwy). Fodd bynnag, gall y buddiolwyr hynny sydd â throthwy cyfalafu sefydliadol o fwy na £5,000 fod, yn amodol ar gyflwyno achos gyda thystiolaeth briodol, yn gymwys am drothwy cyfalafu sy'n fwy na £5,000 a hyd at eu trothwy cyfalaf sefydliadol. Cynghorir y buddiolwyr sydd yn y sefyllfa hon i gysylltu â Llywodraeth Cymru i drafod y trothwy cyfalafu priodol i'w weithredu gyda'u prosiect.

Mesur II.6: Erthygl 50 - Hyrwyddo cyfalaf dynol a rhwydweithio

85. Gall cymorth dan Fesur II.6: Erthygl 50 gynnwys:

- costau sy'n gysylltiedig â mynediad at hyfforddiant proffesiynol neu gaffael sgiliau proffesiynol newydd, gan gynnwys ffioedd a deunyddiau cyrsiau, a chostau cysylltiedig fel teithio a chynhaliaeth
- darparu cyrsiau hyfforddiant; yn cynnwys ffioedd hyfforddwyr, deunyddiau hyfforddiant a chostau cysylltiedig fel llogi adeilad, arlwy a theithio a chynhaliaeth
- costau yn gysylltiedig â chael mynediad at a/neu ddarparu gweithgareddau neu ddigwyddiadau i rannu gwybodaeth a/neu rannu arfer gorau; yn cynnwys costau cydlynedd, hwyluswyr neu unigolion eraill sy'n rhoi cyngor neu arweiniad arbenigol a chostau cysylltiedig fel costau lleoliad, arlwy a theithio a chynhaliaeth
- costau yn gysylltiedig â chael gafael ar adnoddau canllaw neu gynghori arbenigol (gan gynnwys adnoddau digidol/ar-lein)
- costau yn gysylltiedig â rhoi cyhoeddusrwydd a hyrwyddo, pan fo hynny'n angenrheidiol ac ymwneud yn uniongyrchol â chyflawni'r prosiect

Mesur II.7: Erthygl 51 - Cynyddu potensial safleoedd dyframaethu

86. Yn ychwanegol at y darpariaethau ym mharagraffau 76-79 uchod, gall cymorth dan Fesur II.7: Erthygl 51 gwmpasu asedau diriaethol fel tir, peiriannau a chyfarpar ac asedau anniriaethol fel meddalwedd cyfrifiadurol, hawliau patent a thrwyddedau a ffioedd technegol ac ymgynghori a chostau uniongyrchol a rhedeg sy'n ofynnol i gyflawni'r prosiect:

- adeiladu, caffael, neu wella eiddo ansymudol gyda'r nod i gadarnhau tir yn ymwneud â safleoedd dyframaethu, gyda thir ddim ond yn gymwys i'r graddau nad yw'n uwch na 10% o gyfanswm costau cymwys y prosiect buddsoddi
prynu a gosod peiriannau a chyfarpar hyd at werth marchnad yr ased costau cyffredinol sy'n gysylltiedig â gwariant y cyfeirir atynt yn y ddau bwynt bwled uchod, fel ffioedd pensaer, peiriannydd ac ymgynghori, costau dylunio technegol, ffioedd sy'n gysylltiedig â chyngor ar gynaliadwyedd amgylcheddol ac economaidd heb fod yn fwy na 12% o gyfanswm costau cymwys y prosiect buddsoddi
- ffioedd ymgynghorwyr, ffioedd technegol a phroffesiynol eraill; ffioedd am ganiatâd statudol, trwyddedau a chydsyniadau
- costau cyffredinol gweithredu gwaith cyfalaf
- costau contractwyr ar gyfer llafur a defnyddio cyfarpar
- costau uniongyrchol i gynnal treialon neu weithgarwch angenrheidiol fel rhan o'r prosiect. Gall hyn gynnwys llogi neu siartro cyfleusterau/cyfarpar arbenigol

- os yw'n angenrheidiol fel rhan o'r prosiect, gallai prosiectau peilot (cyfeirio at "brosiectau prawf" y mae'r term hwn), sydd hefyd wrth gwrs yn gallu bod yn rhan o broses "ddatblygu" fwy, fod yn gost gymwys
- costau rhedeg prosiect, gan gynnwys costau staff a rhent ar gyfer eiddo; llogi ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd prosiect rheolaidd; costau offer swyddfa; costau ffôn a/neu'r rhyngwryd
- costau teithio a chynhaliaeth rhesymol er mwyn galluogi arbenigwyr i ymweld â safleoedd prosiectau. Gall hyn gynnwys aros dros nos lle bo angen hynny a lle bo modd ei gyfiawnhau.
- defnyddiau traul (eitemau sy'n cael eu dileu fel rheol o fewn blwyddyn) ar gyfer ymgymryd â gweithgarwch prosiect neu dreial
- costau sy'n gysylltiedig â darparu gweithgareddau neu ddigwyddiadau i ledaenu gwybodaeth a rhannu ymarfer gorau
- costau hyrwyddo, gan gynnwys cyhoeddusrwydd a chodi ymwybyddiaeth
- caffael neu ddatblygu meddalwedd cyfrifiadurol a chaffael patentau, trwyddedau, hawlfreintiau, nodau masnach.

Mesur II.8: Erthygl 52 - Annog ffermwyr dyframaethu newydd sy'n arfer dyframaethu cynaliadwy

87. Yn ychwanegol at y darpariaethau ym mharagraffau 76-79 uchod, gall cymorth dan Fesur II.8: Erthygl 52 gynnwys asedau diriaethol fel buddsoddiadau mewn tir, adeiladau, peiriannau a chyfarpar; ac asedau anniriaethol fel meddalwedd cyfrifiadurol, hawliau patent a thrwyddedau a ffioedd technegol ac ymgynghori:

- adeiladu, caffael, neu wella eiddo ansymudol, gyda thir ond yn gymwys i'r graddau nad yw'n uwch na 10% o gyfanswm costau cymwys y prosiect buddsoddi
- prynu a gosod peiriannau a chyfarpar hyd at werth marchnad yr ased
- costau cyffredinol sy'n gysylltiedig â gwariant y cyfeirir atynt yn y ddau bwynt bwled uchod, fel ffioedd pensaer, peiriannydd ac ymgynghori, ffioedd sy'n gysylltiedig â chynghor ar gynaliadwyedd amgylcheddol ac economaidd heb fod yn fwy na 12% o gyfanswm costau cymwys y prosiect buddsoddi costau cyffredinol gweithredu gwaith cyfalaf costau contractwyr ar gyfer llafur a defnyddio cyfarpar caffael neu ddatblygu meddalwedd cyfrifiadurol a chaffael patentau, trwyddedau, hawlfreintiau, nodau masnach.

Mesur II.10: Erthygl 54 - Dyframaethu yn darparu gwasanaethau amgylcheddol

88. Yn ychwanegol at y darpariaethau ym mharagraffau 76-79 uchod, gall cymorth dan Fesur II.10: Erthygl 54 gynnwys asedau diriaethol fel tir, peiriannau a chyfarpar ac asedau anniriaethol fel meddalwedd cyfrifiadurol, hawliau patent a thrwyddedau a ffioedd technegol ac ymgynghori:

- adeiladu, caffael, neu wella eiddo ansymudol os oes cysylltiad uniongyrchol â chadwraeth ac atgenhedliad anifeiliaid dyfrol, gyda thir ond yn gymwys i'r graddau nad yw'n uwch na 10% o gyfanswm costau cymwys y prosiect buddsoddi
- prynu a gosod peiriannau a chyfarpar hyd at werth marchnad yr ased
- costau cyffredinol sy'n gysylltiedig â gwariant y cyfeirir atynt yn y ddau bwynt bwled uchod, fel ffioedd pensaer, peiriannydd ac ymgynghori, ffioedd dylunio technegol, ffioedd sy'n gysylltiedig â chynghor ar gynaliadwyedd amgylcheddol ac economaidd
- costau cyffredinol gweithredu gwaith cyfalaf
- costau contractwyr ar gyfer llafur a defnyddio cyfarparcostau uniongyrchol i gynnal treialon neu weithgarwch corfforol angenrheidiol fel rhan o'r prosiect. Gall hyn gynnwys llogi neu siartro cyfleusterau/cyfarpar arbenigol
- caffael neu ddatblygu meddalwedd cyfrifiadurol a chaffael patentau, trwyddedau, hawlfreintiau, nodau masnach.

COSTAU ANGHYMWYS

Pob Mesur

89. Mae'r eitemau a ganlyn yn enghreifftiau o fathau o wariant sy'n **anghymwys** ar gyfer cymorth grant EMFF. Nid yw hon yn rhestr derfynol a bydd pob eitem o wariant yn cael ei hystyried fesul achos. Cyfeiriwch hefyd at y rhestr benodol i'r Mesur o gostau anghymwys isod ym mharagraffau 92-97, sy'n gymwys yn ychwanegol at y rhestr a ganlyn:

- unrhyw gostau y gallech eu hadennill yn rhannol neu i gyd drwy wneud hawliad ar bolisi yswiriant neu drwy geisio iawndal neu ddiogollediad
- prynu adeiladau sydd wedi'u defnyddio'n flaenorol ar gyfer yr un diben
- unrhyw waith corfforol ar y safle neu unrhyw wariant yr eir iddo cyn dyddiad dechrau'r prosiect heb gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y dyfarnwr (**mae unrhyw waith o'r fath a gyflawnir yn rhoi'r dyfarniad cyfan yn y fantol**)
- gwaith dros dro nad yw'n **uniongyrchol** gysylltiedig â gweithredu'r prosiect prynu ceir, faniau, beiciau modur, beiciau ac unrhyw ffurf arall ar gludiant personol (at ba bwrpas bynnag)
prynu stoc masnachu
cyfalaf gweithio
- TAW adenilladwy
- costau gwaith cynnal a chadw ataliol neu wedi'i drefnu ar gychod a chyfarpar ac ar adeiladau, peiriannau neu gyfarpar sy'n bodoli'n barod, gan gynnwys costau cynnal a chadw cerbydau
- costau gweithredu

Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) - Nodiadau Cyfarwyddyd Cymorth ar gyfer Dyframaethu

- costau sy'n gysylltiedig â llenwi ffurflenni cais EMFF, yn cynnwys talu ymgynghorwyr i helpu pobl i lenwi'r ffurflenni cais
- costau cyfarpar a llafur eich hun
- cyfnewid peiriannau neu gyfarpar am rai newydd yr un fath
- cyfarpar hamdden (er y gall setiau teledu, taflunyddion ac ati at ddibenion addysgol neu fusnes fod yn gymwys)
- tirlunio, gwaith addurnol a darparu amwynderau hamdden
- cyfarpar a dodrefn swyddfa cyffredinol heblaw am ddesgiau, cadeiriau, cyfarpar ffôn, cyfrifiaduron a chyfarpar TG arall, meddalwedd a theleargraffyddion, cyfarpar labordai a darlithfeydd sy'n hanfodol ar gyfer cyflawni'r prosiect
- mynd i ffeiriau masnach
- treuliau cyfarwyddwyr allanol
- costau sy'n gysylltiedig â chontract prydlesu fel elw leswyr, costau cyllido llog, gorbenion a thaliadau yswiriant
- costau trefnu cyfleusterau gorddrafft, benthyciadau neu gyfleusterau cymorth ariannol eraill, gan gynnwys unrhyw ffioedd cysylltiedig neu daliadau eraill
- gorbenion sy'n cael eu dyrannu neu eu dosrannu ar gyfraddau llawer uwch na'r rhai a ddefnyddir ar gyfer gwaith tebyg a gyflawnir gan yr ymgeisydd
- gwariant tybiannol
- taliadau ar gyfer gweithgarwch o natur grefyddol a/neu wleidyddol
- dibrisiant, amorteiddiad ac amhariad asedau a brynwyd gyda chymorth grant Ewropeaidd
- rhwymedigaethau digwyddiadol
- hapddigwyddiadau / darpariaethau
- elw a wneir gan yr ymgeisydd
- buddrannau
- taliadau llog (ac eithrio o dan gynllun Cymorth Gwladwriaethol a gymeradwyir)
- taliadau gwasanaeth sy'n deillio o brydlesau cyllid, hurbwrcasu a threfniadau credyd
- costau sy'n deillio o ohirio taliadau i gredydwyr costau sy'n ymwneud â dirwyn cwmni i ben
- taliadau am ddiswyddo annheg
- taliadau i gynlluniau pensiwn preifat
- taliadau ar gyfer pensiynau heb eu cyllido
- iawndal am golli swydd
- iawndal a delir i drydydd parti am ddifeddiannu, cnydau heb eu cynaeafu ac ati
- lawndal am gostau ychwanegol yr eir iddynt a/neu incwm na chafwyd

- drwgddyledion sy'n deillio o fenthyciadau i weithwyr, perchenogion, cyfarwyddwyr, partneriaid, gwarantwyr, rhanddeiliaid neu berson sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r rhain
 - taliadau am anrhegion a rhoddion
 - diddanwch personol (gan gynnwys alcohol)
 - costau cysylltiedig â gofynion sy'n codi o weithredu gorfodol statudol
 - dirwyon a chosbau statudol
 - trethi statudol (ac eithrio TAW na ellir ei hadennill)
 - dirwyon ac iawndal troseddol
 - treuliau cyfreithiol yn ymwneud â chyfreitha.
90. Ni ellir defnyddio grant at ddiben caffael asedau cyfalaf nad ydynt yn hanfodol ar gyfer cyflawni'r gweithgarwch arfaethedig.
91. Dim ond os ydynt yn cydymffurfio â gofynion cymhwyster penodol y Mesur a phan fo'r gost wedi'i thalu'n gywir gan yr hawliwr y mae costau'n gymwys i gael cymorth grant yn gysylltiedig â phrynu cyfarpar (newydd a/neu ail law). Gan hynny, nid yw costau llawn unrhyw gyfarpar sy'n cael ei sicrhau dan drefniant hurbwrcasu neu brydles neu unrhyw drefniant ariannol arall yn gymwys am gymorth grant. O dan amgylchiadau penodol, gall elfen gyfalaf taliadau misol fod yn gymwys am gyfnod penodol, ond bydd rheolau eraill yn gymwys.

Mesur II.1: Erthygl 47 – Arloesi

92. Yn ychwanegol at y darpariaethau ym mharagraffau 89-91 uchod, nid yw'r costau a ganlyn yn gymwys dan Fesur II.1: Erthygl 47:
- adeiladu neu gaffael eiddo ansymudol
 - prynu cerbydau (er mae costau cysylltiedig â phrydlesu, siartro neu weithredu cerbydau sy'n uniongyrchol angenrheidiol ar gyfer rhoi'r prosiect ar waith yn gost gymwys bosib hefyd).

Mesur II.2: Erthygl 48.1.a-d, f-h - Buddsoddiadau cynhyrchol mewn dyframaethu a

Mesur II.3: Erthygl 48.1.e, i, j - Buddsoddiadau cynhyrchol mewn dyframaethu - effeithlonrwydd adnoddau, lleihau defnydd o ddŵr a chemegau, systemau ailgylchredeg yn lleihau defnyddio dŵr cymaint ag y bo modd a Mesur II.8: Erthygl 52 - Annog ffermwyr dyframaethu newydd sy'n arfer dyframaethu cynaliadwy

93. Yn ychwanegol at y darpariaethau ym mharagraffau 89-91 uchod, nid yw'r costau a ganlyn yn gymwys dan Fesur II.2: Erthygl 48.1.a-d, f-h; Mesur II.3: Erthygl 48.1.e, i, j a Mesur II.8: Erthygl 52:

- prynu tir, gan gynnwys treuliau cysylltiedig, lle mae'r costau'n uwch na 10% o gyfanswm gwariant eich prosiect
- nwyddau traul (eitemau sy'n cael eu dileu o fewn blwyddyn fel arfer)
- costau refeniw fel cyflogau ar gyfer staff allweddol; hyfforddiant ar gyfer cyfarwyddwyr a staff allweddol

94. Ar gyfer Mesur II.8: Erthygl 52 yn unig: mae prynu cerbydau ar gyfer cludiant allanol (fel lorïau, bysus, faniau, bysus mini neu unrhyw fath arall o gerbyd a ddefnyddir i gludo nwyddau neu bobl) yn anghymwys; ond gall tryciau fforch godi, neu debyg, a ddefnyddir ar gyfer cludiant a thrin mewnol fod yn gymwys ar gyfer cymorth grant EMFF os ydynt yn cydymffurfio â gofynion cymhwysedd penodol y Mesur.

Mesur II.5: Erthygl 49 - Rheoli, cymorth a gwasanaethau cynghori ar gyfer ffermydd dyframaethu

95. Yn ychwanegol at y darpariaethau ym mharagraffau 89-91 uchod, nid yw'r costau a ganlyn yn gymwys dan Fesur II.5: Erthygl 49:

- gwariant cyfalaf (diffinnir gwariant cyfalaf fel rheol yn unol â throthwy cyfalafu'r buddiolwr. Diffinnir hyn fel rheol fel unrhyw eitem unigol sy'n costio dros £5,000 (a/neu sydd ag oes ddefnyddiol o flwyddyn neu fwy). Fodd bynnag, gall y buddiolwyr hynny sydd â throthwy cyfalafu sefydliadol o fwy na £5,000 fod, yn amodol ar gyflwyno achos gyda thystiolaeth briodol, yn gymwys am drothwy cyfalafu sy'n fwy na £5,000 a hyd at eu trothwy cyfalaf sefydliadol. Cynghorir y buddiolwyr sydd yn y sefyllfa hon i gysylltu â Llywodraeth Cymru i drafod y trothwy cyfalafu priodol i'w weithredu gyda'u prosiect)
- adeiladu, caffael, neu wella eiddo ansymudol
- prynu a/neu brydlesu neu siartro cerbydau
- costau rhedeg darparwyr gwasanaeth ymgynghorol
- costau cysylltiedig â gweithredu canfyddiadau astudiaeth ddichonoldeb neu gyngor proffesiynol neu gostau sy'n deillio o'r rhain.

Mesur II.6: Erthygl 50 - Hyrwyddo cyfalaf dynol a rhwydweithio

96. Yn ychwanegol at y darpariaethau ym mharagraffau 89-91 uchod, nid yw'r costau a ganlyn yn gymwys dan Fesur II.6: Erthygl 50:

- gwariant cyfalaf (diffinnir gwariant cyfalaf fel rheol yn unol â throthwy cyfalafu'r buddiolwr. Diffinnir hyn fel rheol fel unrhyw eitem unigol sy'n costio dros £5,000 (a/neu sydd ag oes ddefnyddiol o flwyddyn neu fwy). Fodd bynnag, gall y buddiolwyr hynny sydd â throthwy cyfalafu sefydliadol o fwy na £5,000 fod, yn amodol ar gyflwyno achos gyda thystiolaeth briodol, yn gymwys am drothwy cyfalafu sy'n fwy na £5,000 a hyd at eu trothwy cyfalaf sefydliadol. Cynghorir y buddiolwyr sydd yn y sefyllfa hon i gysylltu â

Llywodraeth Cymru i drafod y trothwy cyfalafu priodol i'w weithredu gyda'u prosiect)

- adeiladu, caffael, neu wella eiddo ansymudol
- prynu a/neu brydlesu peiriannau a chyfarpar
- prynu a/neu brydlesu neu siartro cerbydau

Mesur II.7: Erthygl 51 - Cynyddu potensial safleoedd dyframaethu a

Mesur II.10: Erthygl 54 - dyframaethu yn darparu gwasanaethau amgylcheddol

97. Yn ychwanegol at y darpariaethau ym mharagraffau 89-91 uchod, nid yw'r costau a ganlyn yn gymwys dan Fesur II.7: Erthygl 51 a Mesur II.10: Erthygl 54:

- prynu tir, gan gynnwys treuliau cysylltiedig, lle mae'r costau'n uwch na 10% o gyfanswm gwariant eich prosiect
- prynu cerbydau ar gyfer cludiant allanol (fel lorïau, bysus, faniau, bysus mini neu unrhyw fath arall o gerbyd a ddefnyddir i gludo nwyddau neu bobl) (gall tryciau fforch godi, neu debyg, a ddefnyddir ar gyfer cludiant a thrin mewnol fod yn gymwys ar gyfer cymorth grant EMFF os ydynt yn cydymffurfio â gofynion cymhwysedd penodol y Mesur)
- adeiladu neu gaffael adeiladau.

CYFRADD GRANT UCHAF A'R TROTHWY GRANT UCHAF

98. Mae swm y grant yn cynnwys cyfanswm cyfraniad y sector cyhoeddus at y buddsoddiad neu'r prosiect sy'n cynnwys: arian gan yr Undeb Ewropeaidd; cydgyllido cronfeydd yr Undeb Ewropeaidd gan Lywodraeth Cymru; arian gan adrannau ac asiantaethau eraill y llywodraeth; cyrff cyhoeddus anadrannol ac awdurdodau lleol; arian gan gyrff llywodraethol a reolir fel y Gwasanaeth Busnesau Bach a'r Loteri Genedlaethol; ac arian o drethi ardrethiannol (ardollau).

99. Os ceir arian cyhoeddus arall o'r Undeb Ewropeaidd neu'r Deyrnas Unedig i gefnogi costau prosiect, bydd yn cael ei ddisgowntio yn erbyn grant EMFF.

100. Trothwy isafswm y grant ar gyfer pob prosiect neu fuddsoddiad unigol yw **£2,400**.

101. Yn y cam hwn, nid oes unrhyw drothwy grant uchafswm wedi'i bennu. Fodd bynnag, mae'r Rhaglen yn ddewisol a byddai swm y grant a gynigir yn berthnasol i amgylchiadau unigol a bob amser y **swm gofynnol angenrheidiol** i alluogi i'r prosiect fynd yn ei flaen.

Cyfraddau Grant

102. Cyfraddau grant yw lefel uchaf y cymorth cyhoeddus y gall prosiect fod yn gymwys ar ei gyfer. Felly, mae'n rhaid i'r buddiolwr sicrhau gweddill yr arian o gronfeydd nad ydynt yn rhai cyhoeddus. Os ceir arian cyhoeddus arall o'r Undeb

Ewropeaidd neu'r Deyrnas Unedig i gefnogi costau prosiect, bydd yn cael ei ddisgowntio yn erbyn grant EMFF.

103. Y gyfradd grant uchaf ar gyfer corff cyfraith gyhoeddus yw **100%**.

104. Mae'r cyfraddau grant uchaf ar gyfer buddiolwyr nad ydynt yn gyrff cyfraith gyhoeddus fel a ganlyn:

- y gyfradd grant uchaf ar gyfer Sefydliadau Cynhyrchwyr, cymdeithas o Sefydliadau Cynhyrchwyr neu Sefydliad Rhyng-gangen yw **75%**
- y gyfradd grant uchaf ar gyfer sefydliadau pysgotwyr neu gyd-fuddiolwyr eraill yw **60%**
- y gyfradd grant uchaf ar gyfer sefydliadau preifat sy'n fusnesau bach a chanolig yw **50%**
- y gyfradd grant uchaf ar gyfer mentrau mawr nad ydynt yn fusnesau bach a chanolig yw **30%**

105. Trowch at adran "Pwy All Wneud Cais" y Nodyn Cyfarwyddyd hwn i gadarnhau eich bod yn gymwys i ymgeisio.

Rhanddirymiadau:

106. Nodir yn Erthygl 95 o Reoliad Rhif 508/2014 yr Undeb Ewropeaidd (Rheoliad EMFF):

Gall Aelod-wladwriaethau ddefnyddio lefel o gymorth cyhoeddus rhwng 50% a 100% o gyfanswm y gwariant cymwys os:

(a) yw'r gweithredu (prosiect) yn digwydd o dan Benodau I, II neu IV o Deitl V a'i fod yn bodloni'r holl feini prawf a ganlyn:

- (i) mae er budd pawb
- (ii) mae ganddo gyd-fuddiolwyr
- (iii) mae ganddo nodweddion arloesol, lle bo'n briodol, yn lleol.

107. **Bydd Llywodraeth Cymru yn arfarnu'r holl geisiadau am lefel uwch o gymorth cyhoeddus fesul achos. Disgresiwn Llywodraeth Cymru yw gwneud y penderfyniad terfynol ar lefel y cymorth cyhoeddus y gall prosiect fod yn gymwys i'w gael.**

Cyd-fudd a Chyd-fuddiolwr:

108. 'Cyd-fuddiolwr' yw sefydliad y cydnabyddir ei fod yn cynrychioli budd ei aelodau, grŵp o randdeiliaid neu'r cyhoedd yn gyffredinol. Y sefydliad ei hun yn ei gyfanrwydd ddylai fod yn fuddiolwr prosiect ac nid ei aelodau.

109. Caiff 'cyd-fudd' ei ddiffinio fel camau gweithredu a gaiff eu cymryd gan y sefydliad hwn sydd er cyd-fudd ei aelodau, grŵp o randdeiliaid neu'r cyhoedd. Dylai camau gweithredu o'r fath felly gwmpasu mwy na chyfanswm buddiannau unigol aelodau o'r cyd-fuddiolwr hwn.
110. Os nad oes gan brosiect fudd ariannol uniongyrchol i'r ymgeisydd sy'n cyflawni'r prosiect neu i fuddiolwr y prosiect a bod ganddo gyd-fudd a chyd-fuddiolwr (neu fuddiolwyr) yna gellir ei ystyried yn Gyd-brosiect.
111. Os oes gan brosiect fudd ariannol uniongyrchol i'r ymgeisydd sy'n cyflawni'r prosiect neu i fuddiolwr y prosiect yna ni ellir ei ystyried yn Gyd-brosiect.
112. At hyn, er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y gyfradd uwch o gymorth cyhoeddus, rhaid bod gan brosiect nodweddion arloesol.
113. Gellir diffinio arloesi mewn nifer o ffyrdd gwahanol. Er enghraifft:
- **arloesi cynnyrch** yw cyflwyno nwyddau neu wasanaethau sy'n newydd neu wedi gwella'n sylweddol o ran eu nodweddion neu eu defnyddiau bwriadedig. Mae hyn yn cynnwys gwelliannau sylweddol i'r manylebau technegol, y cydrannau a'r defnyddiau, y feddalwedd gysylltiedig, pa mor hawdd ydyw i'w drin neu nodweddion swyddogaethol eraill
 - ystyr **arloesi proses** yw rhoi dull cynhyrchu neu ddarparu ar waith sy'n newydd neu wedi gwella'n sylweddol. Mae hyn yn cynnwys newidiadau sylweddol mewn technegau, cyfarpar a/neu feddalwedd
 - ystyr **arloesi marchnata** yw rhoi dull marchnata newydd ar waith sy'n cynnwys newidiadau sylweddol i'r gwaith o ddylunio neu becynnu cynnyrch, lleoliad cynnyrch, hyrwyddo cynnyrch neu ei brisio
 - ystyr **arloesi sefydliadol** yw rhoi dull sefydliadol newydd ar waith fel rhan o drefniadaeth gweithle, cysylltiadau allanol neu arferion busnes y sefydliad neu'r cwmni.

Ffynhonnell: Oslo Manual: Guidelines for Collecting and Interpreting Innovation Data; Third edition (cyhoeddiad ar y cyd rhwng OECD a Eurostat):

<http://ec.europa.eu/eurostat/documents/3859598/5889925/OSLO-EN.PDF>

114. **Nid yw'r rhestr hon yn rhagnodol nac yn gynhwysfawr. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw cyflwyno achos cadarn a darbwyllol i ddangos bod ei brosiect arfaethedig yn cynnwys nodweddion gwirioneddol arloesol.**
115. Gall nodweddion arloesol fod yn weithgareddau sy'n arloesol i'r sector neu'r diwydiant ond gallant hefyd fod yn arloesol i fusnes neu sefydliad, ond mae'n

rhaid iddynt fod yn bresennol. Os yw'r prosiect yn cael ei gyflawni'n lleol, rhaid i'r nodweddion arloesol fod yn bresennol yn lleol.

116. Disgwylir hefyd i'r ymgeisydd ddangos y canlynol:

- bod y nodweddion arloesol yn berthnasol i'r nodau a'r gweithgareddau cymwys o fewn y Mesur penodedig
- dylai'r nodweddion arloesol fod yn berthnasol i gyflawni nodau'r prosiect.

117. Lle bo'r arloesi arfaethedig yn ymwneud â sefydliad neu fusnes, efallai y bydd disgwyl i'r ymgeisydd ddangos bod y gweithgarwch hwn hefyd yn cynrychioli rhywfaint o arloesi o fewn y sector neu'r diwydiant perthnasol.

118. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y gwerth am arian a gynrychiolir gan y prosiect cyfan, yn cynnwys unrhyw nodweddion arloesol arfaethedig fel rhan o'r arfarniad prosiect ehangach.

119. Bydd Llywodraeth Cymru yn arfarnu'r holl geisiadau am lefel uwch o gymorth cyhoeddus fesul achos. Disgresiwn Llywodraeth Cymru yw gwneud y penderfyniad terfynol ar lefel y cymorth cyhoeddus y gall prosiect fod yn gymwys i'w gael.

CYMORTH GWLADWRIAETHOL

120. Rhaid i bob prosiect gydymffurfio â holl reolau cymhwyster y cynllun a rheolau Cymorth Gwladwriaethol er mwyn bod yn gymwys i gael arian.

121. Nid yw Erthyglau 107, 108 a 109 TFEU yn berthnasol i grantiau a ddarperir dan y cynllun hwn a weir yn unol â Rheoliad (UE) Rhif 508/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop, o fewn cwmpas Erthygl 42 TFEU. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r prosiectau ymwneud â dal, cynhyrchu a/neu brosesu cynhyrchion pysgodfeydd. Caiff y rhain eu diffinio yn:

- Atodiad I i'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (a geir yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd o dan 2012/C 326/01)
- Atodiadau I a II i Reoliad Trefniant Cyffredin ar gyfer Marchnadoedd yr Undeb Ewropeaidd 1379/2013.

122. Os nad ydych chi'n teimlo bod eich prosiect yn bodloni'r meini prawf hyn yna dylech gysylltu â Llywodraeth Cymru i drafod eich prosiect cyn gwneud cais am arian.

DEWIS PROSIECTAU LLWYDDIANNUS

123. I gael ei ddewis, mae disgwyl i brosiect, fel y bo'n briodol, ddangos:

Rhif y Fersiwn: 3

Dyddiad Cyhoeddi: Mai 2018

Cyhoeddwyd gan: Lywodraeth Cymru Tudalen 30 o 47

Ei fod yn cydweddu â Rhaglen Weithredol EMFF:

Yn benodol, mae disgwyl i brosiect ddangos:

Cydweddiad Strategol:

Sut y bydd y prosiect arfaethedig yn cefnogi nodau'r Mesur, yr Amcan Penodol a Blaenoriaeth yr Undeb drwy amlinellu:

Pob Mesur:

- sut bydd y prosiect yn cyfrannu at feithrin dyframaethu arloesol, cystadleuol sy'n amgylcheddol gynaliadwy, yn effeithlon o ran adnoddau ac sy'n seiliedig ar wybodaeth.

Amcan Penodol 1: Darparu cymorth i gryfhau datblygiad technolegol, arloesi a throsglwyddo gwybodaeth

Mesur II.1: Erthygl 47 – Arloesi a

Mesur II.5: Erthygl 49 - Rheoli, cymorth a gwasanaethau cynghori ar gyfer ffermydd dyframaethu

- sut bydd y prosiect arfaethedig yn cyfrannu at Amcan Penodol 1, sef darparu cymorth i gryfhau datblygu technolegol, arloesi a throsglwyddo gwybodaeth
- sut bydd y prosiect arfaethedig yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion a'r gweithgareddau cymwys a amlinellir yn adran Gweithgareddau Cymwys y Nodyn Cyfarwyddyd hwn.

Amcan Penodol 2: Gwellu natur gystadleuol a hyfywedd mentrau dyframaethu, gan gynnwys gwellu diogelwch neu amodau gwaith, yn enwedig i Fusnesau Bach a Chanolig

Mesur II.2: Erthygl 48.1.a-d, f-h - Buddsoddiadau cynhyrchiol mewn dyframaethu a

Mesur II.8: Erthygl 52 - Annog ffermwyr dyframaethu newydd sy'n arfer dyframaethu cynaliadwy

- sut bydd y prosiect arfaethedig yn cyfrannu at Amcan Penodol 2 gwella cystadleurwydd a hyfywedd mentrau dyframaethu, gan gynnwys gwellu diogelwch neu amodau gwaith
- sut bydd y prosiect arfaethedig yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion a'r gweithgareddau cymwys a amlinellir yn adran Gweithgareddau Cymwys y Nodyn Cyfarwyddyd hwn.

Amcan Penodol 3: Diogelu ac adfer bioamrywiaeth ddyfrol a gwella ecosystemau sy'n gysylltiedig â dyframaeth a hyrwyddo dyframaethu effeithlon o ran adnoddau

Mesur II.3: Erthygl 48.1.e, i, j - Buddsoddiadau cynhyrchol mewn dyframaethu - effeithlonrwydd adnoddau, lleihau defnydd o ddŵr a chemegau, systemau ailgylchredeg yn lleihau defnyddio dŵr cymaint ag y bo modd a Mesur II.7: Erthygl 51 - Cynyddu potensial safleoedd dyframaethu

- sut bydd y prosiect arfaethedig yn cyfrannu at Amcan Penodol 3, sef diogelu ac adfer bioamrywiaeth ddyfrol a gwella ecosystemau sy'n gysylltiedig â dyframaeth a hyrwyddo dyframaethu effeithlon o ran adnoddau
- sut bydd y prosiect arfaethedig yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion a'r gweithgareddau cymwys a amlinellir yn adran Gweithgareddau Cymwys y Nodyn Cyfarwyddyd hwn.

Amcan Penodol 4: Hyrwyddo dyframaethu sydd â lefel uchel o ddiogelu'r amgylchedd, a hyrwyddo iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch y cyhoedd

Mesur II.10: Erthygl 54 - dyframaethu yn darparu gwasanaethau amgylcheddol

- Sut bydd y prosiect arfaethedig yn cyfrannu at Amcan Penodol 4, sef hyrwyddo dyframaethu sydd â lefel uchel o ddiogelu'r amgylchedd, a hyrwyddo iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch y cyhoedd
- sut bydd y prosiect arfaethedig yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion a'r gweithgareddau cymwys a amlinellir yn adran Gweithgareddau Cymwys y Nodyn Cyfarwyddyd hwn.

Amcan Penodol 5: Datblygu hyfforddiant proffesiynol, sgiliau proffesiynol newydd a dysgu gydol oes

Mesur II.6: Erthygl 50 - Hyrwyddo cyfalaf dynol a rhwydweithio

- Sut bydd y prosiect arfaethedig yn cyfrannu at Amcan Penodol 5, sef datblygu hyfforddiant proffesiynol, sgiliau proffesiynol newydd a dysgu gydol oes
- sut bydd y prosiect arfaethedig yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion a'r gweithgareddau cymwys a amlinellir yn adran Gweithgareddau Cymwys y Nodyn Cyfarwyddyd hwn.

Dangosyddion a Chanlyniadau:

- sut bydd y prosiect yn cyfrannu at y Dangosyddion Canlyniadau EMFF sy'n berthnasol i'r Mesur a ddewiswyd fel y nodir yn adran Dangosyddion Canlyniadau'r Nodyn Cyfarwyddyd hwn.

Addasrwydd yr Ymyriad:

- esbonio manteision neu ganlyniadau ehangach yr ydych yn credu y gall y prosiect eu darparu, yn ychwanegol at y prif ganlyniadau y bydd yn eu cyfrannu at amcanion Blaenoriaeth yr Undeb, Amcan Penodol a Mesur (fel yr amlinellir yn yr adran ar Gydweddiad Strategol uchod)
- esbonio a fydd eich prosiect yn cyfrannu at nodau ac amcanion ehangach Rhaglen EMFF, fel y nodir yn adran Amcanion Strategol a Thematig y Nodyn Cyfarwyddyd hwn.

Y Gallu i Gyflawni:

Mae disgwyl i brosiect ddangos:

Yr angen am gyllid:

- na all y prosiect fynd rhagddo heb gymorth
- nad yw'r costau'n ormodol ar gyfer natur y gweithgarwch dan sylw
- bod bwlch cyllid neu fethiant yn y farchnad, lle bo hynny'n berthnasol.

Gweler y Nodiadau Cyfarwyddyd ar 'Sut mae Gwneud Cais' am ragor o fanylion.

Y gallu i sicrhau:

- hyfywedd y busnes □ cydymffurfio â'r gyfraith
- hyfywedd ariannol y prosiect a chynaliadwyedd, gan gynnwys strategaeth ymadael
- Cymorth perthnasol ac ymrwymiad rhanddeiliaid allweddol
- trefniadau rheoli, monitro a gwerthuso'r prosiect.

Gweler y Nodiadau Cyfarwyddyd ar 'Sut mae Gwneud Cais' am ragor o fanylion.

124. Po fwyaf yw pwysigrwydd a chyfraniad buddsoddiad y prosiect at yr amcanion thematig a strategol priodol, y mwyaf tebygol ydyw y bydd yn cael ei argymhell ar gyfer ei ddewis.

GOFYNION ALLWEDDOL

125. Ni fyddai'r prosiect yn mynd rhagddo fel ag y mae ar hyn o bryd heb gymorth grant.
126. Swm y grant y gofynnir amdano yw'r cyllid llenwi bwlch isaf sy'n angenrheidiol i'r prosiect fynd rhagddo.
127. Mae'n rhaid i geisiadau ddangos eu bod wedi mynd i'r afael â'r canlynol hefyd:
- mae caniatâd cynllunio amlinellol wedi'i dderbyn os oes angen hynny
 - mae pob cydsyniad, trwydded a chaniatâd arall wedi'i roi yn ôl yr angen
 - ar gyfer busnesau sydd eisoes yn bodoli, hyfywedd economaidd y prosiect a'r busnes, drwy ddarparu cyfrifon ar gyfer tair blynedd olynol yn union cyn dyddiad y cais a rhagolygon ariannol ar gyfer cyfnod y prosiect
 - bydd yn rhaid i fusnesau newydd ddarparu manylion llawn am gefndir a phrofiad y cyfarwyddwyr ynghyd â thystiolaeth arall sy'n angenrheidiol i ddilysu'r cynllun busnes a chynigion y prosiect
 - cydymffurfio â Chyfraith y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd ar gyfle cyfartal, a dylai prosiectau hyrwyddo ac annog cyfle cyfartal a mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol
 - cydymffurfio â'r safonau gofynnol a'r gofynion deddfwriaethol o ran yr amgylchedd, hylendid, lles anifeiliaid a safonau iechyd a diogelwch □ sicrhau bod y sgiliau a'r cymwyseddau technegol angenrheidiol ar gael yn y busnes.

DANGOSYDDION AC ADRODD

Dangosyddion:

128. Mae Rhaglen Weithredol EMFF yn nodi'r dangosyddion canlyniadau ac allbynnau y mae disgwyl i brosiectau adrodd arnynt.

Dangosyddion Allbwn:

129. Mae'r Dangosydd Allbynnau yn cofnodi nifer y prosiectau y dyfarnwyd grant iddynt. Y rhain yw:

Mesur II.1: Erthygl 47 – Arloesi a

Mesur II.5: Erthygl 49 - Rheoli, cymorth a gwasanaethau cynghori ar gyfer ffermydd dyframaethu

- Nifer y prosiectau ar arloesi a gwasanaethau cynghori

Mesur II.2: Erthygl 48.1.a-d, f-h - Buddsoddiadau cynhyrchol mewn dyframaethu a

Mesur II.3: Erthygl 48.1.e, i, j - Buddsoddiadau cynhyrchol mewn dyframaethu - effeithlonrwydd adnoddau, lleihau defnydd o ddŵr a chemegau, systemau ailgylchredeg yn lleihau defnyddio dŵr cymaint ag y bo modd

- Nifer y prosiectau ar fuddsoddiadau cynhyrchol mewn dyframaethu

Mesur II.6: Erthygl 50 - Hyrwyddo cyfalaf dynol a rhwydweithio a Mesur II.8: Erthygl 52 - Annog ffermwyr dyframaethu newydd sy'n arfer dyframaethu cynaliadwy

- Nifer y prosiectau ar hyrwyddo cyfalaf dynol dyframaethu yn gyffredinol a ffermydd dyframaethu newydd

Mesur II.7: Erthygl 51 - Cynyddu potensial safleoedd dyframaethu

- Nifer y prosiectau ar gynyddu potensial y safleoedd dyframaethu a mesurau ar iechyd y cyhoedd ac anifeiliaid

Mesur II.10: Erthygl 54 - dyframaethu yn darparu gwasanaethau amgylcheddol

- Nifer y prosiectau ar gyfyngu effaith dyframaethu ar yr amgylchedd (eco-reoli, cynlluniau archwilio, gwasanaethau amgylcheddol dyframaethu organig)

Dangosyddion canlyniadau:

130. Mae'r Dangosyddion Canlyniadau wedi'u cynllunio i nodi'r manteision neu'r effeithiau sy'n deillio o bob prosiect a gefnogir. Mae Rhaglen Weithredol yr EMFF yn nodi amrywiaeth o Ddangosyddion Canlyniadau, a all fod yn berthnasol i brosiectau dan bob Mesur a gwmpesir gan y Nodyn Canllaw hwn.
131. Cyfeiriwch at yr adran 'Tystiolaeth o Ddangosyddion Canlyniadau' isod am ragor o wybodaeth ynghylch yr wybodaeth i'w darparu i fesur cyflawniad ar gyfer pob Dangosydd Canlyniadau a ddewisir.
132. Disgwylir am arweiniad pellach gan y Comisiwn Ewropeaidd ar y Dangosyddion Canlyniadau penodol fydd yn cael eu cymhwyso i bob Mesur a diffiniadau penodol a gofynion tystiolaeth ar gyfer y dangosyddion hyn. Sylwer y gall hyn arwain at ddiwygiadau i'r Dangosyddion Canlyniadau penodol y mae disgwyl i brosiectau gofnodi cyflawniad yn eu herbyn. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau pellach ar ôl i'r wybodaeth hon fod ar gael

Mesur II.1: Erthygl 47 – Arloesi:

Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) - Nodiadau Cyfarwyddyd Cymorth ar gyfer Dyframaethu

- Newid yng nghyfaifaint cynhyrchu dyframaethu (tunelli)
- Newid yng ngwerth cynhyrchu dyframaethu (miloedd o Ewros)
- Newid mewn elw net (miloedd o Ewros)

Mesur II.2: Erthygl 48.1.a-d, f-h - Buddsoddiadau cynhyrchiol mewn dyframaethu

- Newid yng nghyfaifaint cynhyrchu dyframaethu (tunelli)
- Newid yng ngwerth cynhyrchu dyframaethu (miloedd o Ewros)
- Newid mewn elw net (miloedd o Ewros)

Mesur II.2: Erthygl 48. 1.e, i, j - Buddsoddiadau cynhyrchiol mewn dyframaethu - effeithlonrwydd adnoddau, lleihau defnydd o ddŵr a chemegau, systemau ailgylchredeg yn lleihau defnyddio dŵr cymaint ag y bo modd

- Newid yng nghyfaifaint cynhyrchu dyframaethu organig (tunelli)
- Newid yng nghyfaifaint cynhyrchu system ailgylchredeg (tunelli)
- Newid yng nghyfaifaint cynhyrchu dyframaeth a ardystir dan gynlluniau cynaliadwyedd gwirfoddol (tunelli)
- Ffermydd dyframaethu yn darparu gwasanaethau amgylcheddol

Mesur II.5: Erthygl 49 - Rheoli, cymorth a gwasanaethau cynghori ar gyfer ffermydd dyframaethu

- Newid yng nghyfaifaint cynhyrchu dyframaethu (tunelli)
- Newid yng ngwerth cynhyrchu dyframaethu (miloedd o Ewros)
- Newid mewn elw net (miloedd o Ewros)

Mesur II.6: Erthygl 50 - Hyrwyddo cyfalaf dynol a rhwydweithio

- Cyflogaeth a gynhaliwyd (Cyfwerth ag Amser Llawn)

Mesur II.7: Erthygl 51 - Cynyddu potensial safleoedd dyframaethu

Nid yw'r "FAME Support Unit's Working Paper on the Definitions of Common Indicators Version 4.0 Final (October 2016)" yn nodi unrhyw Dangosyddion Canlyniadau sy'n berthnasol i Fesur II.7: Erthygl 51.

Mesur II.8: Erthygl 52 - Annog ffermwyr dyframaethu newydd sy'n arfer dyframaethu cynaliadwy

- Newid yng nghyfaifaint cynhyrchu dyframaethu (tunelli)
- Newid yng ngwerth cynhyrchu dyframaethu (miloedd o Ewros)
- Newid mewn elw net (miloedd o Ewros)

Mesur II.10: Erthygl 54 - dyframaethu yn darparu gwasanaethau amgylcheddol

- Newid yng nghyfaifaint cynhyrchu dyframaethu (tunelli)
- Newid yng ngwerth cynhyrchu dyframaethu (miloedd o Ewros)
- Newid yng nghyfaifaint cynhyrchu dyframaethu organig (tunelli)
- Newid yng nghyfaifaint cynhyrchu system ailgylchredeg (tunelli)
- Newid yng nghyfaifaint cynhyrchu dyframaeth a ardystir dan gynlluniau cynaliadwyedd gwirfoddol (tunelli)
- Ffermydd dyframaethu yn darparu gwasanaethau amgylcheddol (nifer y ffermydd)

Dangosyddion Canlyniadau - Tystiolaeth

133. Mae'r paragraffau a ganlyn yn seiliedig ar y canllawiau drafft cyfredol gan y Comisiwn Ewropeaidd ar yr wybodaeth sydd i'w darparu gan fuddiolwyr er mwyn mesur a chael tystiolaeth o gyflawniad ar gyfer eu dewis o Ddangosyddion Canlyniadau. Gall yr wybodaeth hon newid pan roddir canllawiau wedi eu diweddarau gan y Comisiwn Ewropeaidd. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau pellach ar ôl i'r wybodaeth hon fod ar gael.

134. Newid yng nghyfaifaint cynhyrchu dyframaethu (tunelli)

- Cyfanswm cyfaifaint blynyddol y cynhyrchu wedi ei fynegi mewn pwysau byw cyfatebol/pwysau gwlyb cyn y prosiect
- Cyfanswm cyfaifaint blynyddol y cynhyrchu wedi ei fynegi mewn pwysau byw cyfatebol/pwysau gwlyb yn delfrydol ar ôl y prosiect

135. Newid yng ngwerth cynhyrchu dyframaeth (mil Ewros)

- Cyfanswm refeniw blynyddol gwerthiannau cyntaf cynhyrchion dyframaethu, ac eithrio deorfeydd a meithrinfeydd cyn y prosiect
- Cyfanswm refeniw blynyddol gwerthiannau cyntaf cynhyrchion dyframaethu, ac eithrio deorfeydd a meithrinfeydd ar ôl y prosiect

136. Newid mewn elw net (miloedd o Ewros)

- Enillion blynyddol cyn llog a threthi cyn y prosiect
- Enillion blynyddol cyn llog a threthi ar ôl y prosiect

137. Newid yng nghyfaifaint cynhyrchu dyframaethu organig (tunelli)

- Yn y canllawiau drafft gan y Comisiwn Ewropeaidd, yn achos prosiectau dan Fesur II.2: Erthygl 48. 1.e, i, j, nodir y gall y waelodlin fod yn sero. Bydd arweiniad pellach yn cael ei gyhoeddi, pan fydd ar gael, ar gyfer Mesurau eraill lle gellid defnyddio'r dangosydd hwn

- Cyfanswm cyfaint blynyddol cynhyrchu dyframaethu organig ar ôl y prosiect.

138. Newid yng nghyfaint cynhyrchu system ailgylchredeg (tunelli)

- Cyfanswm cyfaint blynyddol cynhyrchu gan ddefnyddio systemau ailgylchredeg cyn y prosiect
- Cyfanswm cyfaint blynyddol cynhyrchu gan ddefnyddio systemau ailgylchredeg ar ôl y prosiect.

139. Newid yng nghyfaint cynhyrchu dyframaeth a ardystir dan gynlluniau cynaliadwyedd gwirfoddol (tunelli)

- Cyfanswm cyfaint blynyddol cynhyrchu dan gynlluniau cynaliadwyedd gwirfoddol cyn y prosiect
- Cyfanswm cyfaint blynyddol cynhyrchu dan gynlluniau cynaliadwyedd gwirfoddol ar ôl y prosiect.

140. Ffermydd dyframaethu yn darparu gwasanaethau amgylcheddol (nifer y ffermydd)

- Mae'r canllawiau drafft gan y Comisiwn Ewropeaidd ar hyn o bryd yn dangos y bydd y Dangosydd Canlyniadau hwn yn cael ei gyfrifo gan Lywodraeth Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi canllawiau pellach pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael.

141. Cyflogaeth a gynhaliwyd

- Nifer y bobl mewn rhyw fath o gyflogaeth ag iawndal sy'n bodoli'n barod, y gellid priodoli cynnal a chadw eu swyddi o bosibl i gymorth EMFF
- Amser gweithio blynyddol fesul unigolyn y gellid priodoli cynnal a chadw ei swydd o bosibl i gymorth EMFF

Data Gweithredu:

142. Yn unol â gofynion Rheoliad Gweithredu Comisiwn 1243/2014, bydd gofyn i brosiectau adrodd ar yr wybodaeth a ganlyn hefyd:

Mesur II.1: Erthygl 47 – Arloesi

143. Math o arloesi:

- datblygu gwybodaeth
- cyflwyno rhywogaeth newydd
- astudiaethau dichonolrwydd

144. Math o gorff ymchwil dan sylw:

- cyhoeddus
- preifat

145. Nifer y cyflogeion sy'n elwa ar y prosiect yn uniongyrchol yn y mentrau a gefnogir
Mesur II.2: Erthygl 48.1.a-d, f-h - Buddsoddiadau cynhyrchol mewn dyframaethu

146. Math o fuddsoddiad:

- cynhyrchol
- arallgyfeirio
- moderneiddio
- iechyd anifeiliaid
- ansawdd cynnyrch
- adnewyddu
- gweithgareddau cyflenwol

147. Nifer y cyflogeion sy'n elwa ar y prosiect

Mesur II.3: Erthygl 48.1.e, i, j - Buddsoddiadau cynhyrchol mewn dyframaethu - effeithlonrwydd adnoddau, lleihau defnydd o ddŵr a chemegau, systemau ailgylchredeg yn lleihau defnyddio dŵr cymaint ag y bo modd

148. Math o fuddsoddiad:

- amgylcheddol ac adnoddau
- defnyddio dŵr a'i ansawdd
- systemau caeedig

Mesur II.5: Erthygl 49 - Rheoli, cymorth a gwasanaethau cynghori ar gyfer ffermydd dyframaethu

149. Math o brosiect:

- sefydlu rheolaeth
- gwasanaethau cymorth a chynghori
- prynu gwasanaeth cynghori ffermio

150. Math o wasanaeth cynghori os yw'n berthnasol:

- cydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol
- asesiad o effaith amgylcheddol

- cydymffurfio â deddfwriaethau lles anifeiliaid, iechyd a diogelwch, ac iechyd y cyhoedd
- Strategaethau marchnata a busnes

151. Nifer y cyflogeion sy'n elwa ar y prosiect

Mesur II.6: Erthygl 50 - Hyrwyddo cyfalaf dynol a rhwydweithio

152. Math o weithgaredd:

- hyfforddiant proffesiynol
- dysgu gydol oes
- lledaenu gwybodaeth
- sgiliau proffesiynol newydd
- gwella amodau gwaith a hyrwyddo diogelwch galwedigaethol
- rhwydweithio a chyfnewid profiad

153. Nifer y cyflogeion sy'n elwa ar y prosiect

154. Nifer y gwŷr/gwragedd a phartneriaid bywyd sy'n elwa ar y prosiect

Mesur II.7: Erthygl 51 - Cynyddu potensial safleoedd dyframaethu

155. Math o brosiect:

- dynodi meysydd
- gwella cyfleusterau ac isadeileddau cymorth

156. Nifer y cyflogeion sy'n elwa ar y prosiect

Mesur II.8: Erthygl 52 - Annog ffermwyr dyframaethu newydd sy'n arfer dyframaethu cynaliadwy

157. Cyfanswm yr arwynebedd a gwmpesir (km²)

158. Nifer y cyflogeion sy'n elwa ar y prosiect

Mesur II.10: Erthygl 54 - dyframaethu yn darparu gwasanaethau amgylcheddol

159. Math o brosiect:

- Cadwraeth ac atgenhedlu y tu allan i'r cynefin

160. Nifer y cyflogeion sy'n elwa ar y prosiect

161. Cyfanswm yr arwynebedd dan sylw yn NATURA 2000 (mewn km²)

162. Cyfanswm yr arwynebedd dan sylw y tu allan i NATURA 2000 (mewn km²)

Pob Mesur

163. Dylid rhoi'r wybodaeth hon ar ddwy adeg yn ystod oes y prosiect:

- dylid nodi'r hyn y disgwylir ei gyflawni/targedau rhagweledig fel rhan o'r cais
- dylid adrodd ar yr hyn a gyflawnwyd mewn gwirionedd ar ôl gorffen y prosiect.

THEMÂU TRAWSBYNCIOL

164. Mae'r Rheoliadau sy'n llywodraethu Rhaglenni Ewropeaidd yn nodi bod yn rhaid i bob prosiect a ariennir drwy'r Fframwaith Strategol Cyffredin integreiddio'r Themâu Trawsbynciol sy'n ymwneud â Hyrwyddo cydraddoldeb rhwng dynion a merched a pheidio â gwahaniaethu a Datblygu Cynaliadwy. Mae angen ymgorffori'r Themâu Trawsbynciol gorfodol hyn wrth ddylunio a datblygu'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESIF) ac wrth gynnal y gweithgarwch a gefnogir drwy'r cronfeydd hynny. Mae hyn yn cynnwys EMFF.

165. Bwriad y themâu trawsbynciol yw ychwanegu gwerth, codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth tra'n sicrhau'r cyfraddau cyfranogiad uchaf posibl a lliniaru effeithiau andwyol. Dylai hyn fod o gymorth i brosiectau symud y tu hwnt i gydymffurfiaeth a datblygu systemau sy'n cefnogi arfer gorau.

166. Mae rhagor o ganllawiau ar gael yma:

<http://gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/wefo-guidance/cross-cuttingguidance/?skip=1&lang=cy>

SUT MAE GWNEUD CAIS

167. Gellir gwneud ceisiadau am gymorth drwy lenwi'r ffurflen gais a'i chyflwyno drwy WEFO Ar-lein (gweler y canllawiau ar wahân).

168. Unwaith y byddwch chi wedi cyflwyno eich cais llawn, bydd Llywodraeth Cymru yn anfon cydnabyddiaeth a hysbysiad atoch chi yn nodi bod modd i chi fwrw ati gyda'ch prosiect ar eich menter eich hun. Byddwch yn cael yr hysbysiad hwn o fewn 15 diwrnod gwaith i gyflwyno eich cais llawn.

169. **Ni ddylech ddechrau gweithio ar eich prosiect hyd nes y byddwch chi'n cael yr hysbysiad hwn.**

170. Yn amodol ar ofynion Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004: **caiff yr holl wybodaeth a roddir i Lywodraeth Cymru ei thrin yn gwbl gyfrinachol. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, dylech fod yn ymwybodol o'r ffaith bod Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r CE yn cadw'r hawl i gyhoeddi enw eich cwmni, cyfanswm y grant a ddysarnwyd i chi a chrynodeb o'ch prosiect.**
171. Gallwch ddefnyddio ymgynghorydd i baratoi eich cais os dymunwch, **ond mae'n rhaid i chi, ac nid yr ymgynghorydd, lofnodi'r ffurflen gais. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y cais wedi'i gwblhau'n gywir a bod y wybodaeth a ddarperir i gefnogi'ch prosiect yn gywir.**
172. Pan fyddwch yn cyflwyno'ch ffurflen gais, bydd Llywodraeth Cymru'n cydnabod ei bod wedi dod i law. Os yw eich prosiect yn anghymwys, cewch wybod hyn cyn gynted â phosibl. Os yw eich cais yn gymwys bydd arfarniad technegol ac ariannol yn cael ei gynnal. Ar ôl cwblhau'r arfarniad, bydd y cymorth ar gyfer eich cais yn cael ei werthuso yn erbyn y graddau y mae'n cyflawni'r amcanion a'r blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol, fel y disgrifir uchod.
173. Mae tri chanlyniad posibl:
- (a) Nid yw eich prosiect yn gymwys i gael y grant. Cewch wybod cyn gynted â phosibl.
 - (b) Mae'ch prosiect yn gymwys i'w ystyried, ond nid yw'n cael ei gymeradwyo ar gyfer dyfarniad. Cewch wybod y rhesymau pam na fu eich cais yn llwyddiannus. Gallwch ymgeisio eto gyda'r un prosiect (gan ddiwygio'r cais os dymunwch) – **ar yr amod nad ydych wedi dechrau ar y gwaith.**
 - (c) Mae eich prosiect yn gymwys ac yn cael ei gymeradwyo ar gyfer dyfarniad. Byddwch yn cael llythyr cymeradwyo yn nodi telerau ac amodau'r dyfarniad, a gofynnir i chi ei lofnodi fel cytundeb eich bod yn derbyn y telerau ac amodau. Bydd y llythyr hefyd yn eich awdurdodi i ddechrau ar y gwaith.

AMODAU'R GRANT

174. Mae Cronfa EMFF yn amodol ar amrywiaeth o ddeddfwriaeth berthnasol. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru a'r ymgeisydd a derbynnydd y cymorth yn y pen draw weithredu yn unol â'r ddeddfwriaeth honno.
175. Caiff grant o dan Gronfa EMFF ei gynnig yn amodol ar delerau ac amodau, gan gynnwys y rhai a nodir isod ond heb fod yn gyfyngedig iddynt. **Gallai methu â bodloni telerau ac amodau'r dyfarniad arwain at ddiddymu eich dyfarniad a/neu adennill symiau sydd eisoes wedi'u talu, neu ostyngiad yn swm y grant sy'n daladwy.**

Amodau:

1. Mae'n rhaid derbyn y grant a gynigir o fewn pedwar diwrnod gwaith ar ddeg (14) i ddyddiad y llythyr cymeradwyo.
2. Mae'r dyfarniad yn cael ei wneud ar sail y datganiadau a wnaed gennych chi neu'ch cynrychiolwyr ar y ffurflen gais ac mewn gohebiaeth ddilynol.

Mae'n drosedd gwneud datganiadau ffug neu gamarweiniol.

3. Ni chewch ddechrau ar unrhyw waith ar y prosiect cyn cael awdurdod ysgrifenedig i wneud hynny gan Lywodraeth Cymru.
4. Mae'n rhaid i chi gyflawni unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol o dan gyfraith yr Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys deddfwriaeth hylendid.
5. Ni chewch wneud unrhyw newidiadau i'r prosiect, gan gynnwys lleoliad y gweithgarwch, heb gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru.
6. Ni chewch gael gwared ar, trosglwyddo neu werthu unrhyw gyfarpar a/neu adeiladau a brynwyd gyda chymorth grant heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru yn ystod cyfnod cyflawni'r prosiect ac am bum mlynedd ar ôl dyddiad cwblhau'r prosiect. Mae hyn yn cynnwys newidiadau anuniongyrchol e.e. lle bo safle neu gwch yn newid perchenogaeth neu lle bo lleoliad unrhyw eitemau a gaiff eu cyllido yn newid.
7. Eich cyfrifoldeb chi fel yr ymgeisydd gwreiddiol yw hysbysu'r perchenogion newydd o'r rhwymedigaethau cyllido sy'n gysylltiedig â'r eitem. Bydd yn ofynnol i'r perchenogion newydd dderbyn telerau ac amodau'r arian am y cyfnod sy'n weddill hyd at 5 mlynedd o ddyddiad derbyn y cynnig gwreiddiol am arian.
8. Os nad yw perchennog newydd yr eitem neu eitemau yn derbyn y telerau ac amodau cyllido sy'n gysylltiedig, yna tybir nad yw'r eitem wedi cyflawni ei rhwymedigaethau i'r cynllun, ac yn sgil hynny gellid dechrau cymryd camau a gellid adennill cyllid gennych chi fel y derbyniwr gwreiddiol.
9. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd gydymffurfio â'r rheolau ar wariant cymwys fel y nodir yn Nodyn Canllaw perthnasol y Mesur.
10. Rhaid i hawliadau gael eu cyflwyno yn y fformat cywir ynghyd â'r holl ddogfennau angenrheidiol. Fel arall, byddant yn cael eu gwrthod a'u dychwelyd i'r ymgeisydd.

11. Rhaid i hawliadau gael eu cyflwyno yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni. Ni allwch newid yr amserlen y cytunwyd arni na gwerth eich hawliadau heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru.
12. Dylid cwblhau prosiectau o fewn yr amserlen y cytunwyd arni gyda Llywodraeth Cymru. Ni chewch wyro oddi wrth hyn heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru.
13. Mae'n rhaid i chi gadarnhau nad oes dim o'r eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y cais yn cymryd lle eitemau o dan hawliad yswiriant.
14. Mae'n rhaid i chi gadarnhau nad ydych chi wedi gwneud cais am unrhyw gyllid cyhoeddus arall (o ffynonellau'r Undeb Ewropeaidd neu'r Deyrnas Unedig).
15. Mae'n rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd a roddir i'r prosiect gyfeirio at gyfraniad yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru at ei gyllido.
16. Mae'n rhaid cadw cofnodion sy'n ymwneud â gweithgarwch y busnes a chyflawni'r prosiect, gan gynnwys yr holl anfonebau gwreiddiol a dogfennau cysylltiedig eraill, fel tendrau cystadleuol neu ddyfynbrisiau, nes diwedd y chweched flwyddyn ar ôl dyddiad olaf y cymorth ariannol a roddwyd i chi mewn perthynas â'r prosiect.
17. Mae'n rhaid i chi ganiatáu i unigolion a awdurdodir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Comisiwn Archwilio a Llys Archwilwyr Ewrop arolygu'r prosiect. Ar gais, mae'n rhaid i chi roi gwybodaeth iddynt a/neu fynediad at ddogfennaeth wreiddiol sy'n ymwneud â'r prosiect.
18. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y cais ac unrhyw ddogfennaeth ategol yn destun gofynion Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

Dylech fod yn ymwybodol, os yw eich cais yn llwyddiannus, bod gan Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd yr hawl i gyhoeddi enw eich busnes neu gwmni, faint o grant a ddyfarnwyd i chi a chrynodeb o'ch prosiect.

19. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y cais ac unrhyw ddogfennaeth ategol yn destun i Hysbysiad Preifatrwydd sydd ar gael yn <https://gov.wales/topics/environmentcountryside/marineandfisheries/europeanmaritime-fisheries-fund/?skip=1&lang=cy>. Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd yn

esbonio sut y bydd Llywodraeth Cymru'n prosesu ac yn defnyddio'ch data personol a'ch hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

TALU GRANT

Hawliadau

176. Gallwch gyflwyno hawliadau interim yn ystod cyfnod eich prosiect. Bydd nodiadau cyfarwyddyd ynghylch sut i hawlio yn cael eu cyhoeddi pan gaiff y dyfarniad ei gadarnhau ac wedyn pan gewch eich gwahodd i hawlio. Dim ond pan fydd Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y gwariant perthnasol wedi'i wneud a bod y gwaith wedi'i gwblhau yn unol â'r cynllun y bydd hawliadau'n cael eu talu. Bydd taliadau'n cael eu gwneud drwy drosglwyddiad electronig i'ch cyfrif banc.
177. Dylid cyflwyno hawliadau terfynol ar gyfer talu grant cyn gynted â phosibl ar ôl cwblhau'r gwaith ar y prosiect. Mae'n rhaid i'r hawliadau terfynol ddod i law erbyn 30 Mehefin 2023 fan bellaf er mwyn i Lywodraeth Cymru allu gwneud y taliad. Gall methu â chyflwyno hawliadau arwain at orfod ad-dalu'r grant sydd wedi'i dalu tan hynny.
178. Yn ystod oes y grant, pan fo hawliadau'n cael eu cyflwyno, efallai y byddant yn cael eu harchwilio i sicrhau bod gwariant yn gymwys ac yn unol â'r hyn a gymeradwywyd yn y cais gwreiddiol. Yn ystod y prosiect, gellir ymweld â noddwr y prosiect a chynnal asesiad manwl o'r prosiect a gyflawnir. Gallai hyn gynnwys adolygu'r holl ddogfennau ategol gwreiddiol. Yn achos buddsoddiadau cyfalaf, ar ôl cwblhau'r gwaith ffisegol, efallai yr ymwelir â'r safle a bydd asesiad manwl o'r prosiect yn cael ei gynnal. Gallai'r wybodaeth a fydd yn ofynnol yn ystod yr ymweliad gynnwys heb fod yn gyfyngedig i; anfonebau gwreiddiol; rhifau cyfresol/peiriannau; tystysgrif cwblhau Rheoliadau Adeiladu (lle bo'n briodol); system lechyd a Diogelwch, gan gynnwys dadansoddi risg; dogfennau Asesu Risg Tân yn unol â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005; cofnodion Trefniadau Glanhau; cofnodion rheoli Plâu a chofnodion Rheoli Ansawdd. Caiff y grant ei dalu ar yr amod y gwneir cynnydd digonol.

Hawliadau anghywir

179. Mae gennych gyfrifoldeb i sicrhau bod pob hawliad a gyflwynir yn gywir yn rhifyddol; ei fod am wariant sydd wedi'i dalu yn unig (mae'r arian wedi gadael y cyfrif banc); bod yr holl eitemau a chostau'n gymwys a bod yr hawliad ar amser.
180. Os yw'r hawliad yn anghywir bydd eich hawliad yn cael ei ostwng i'r swm sy'n gymwys a bydd y grant a fydd yn cael ei dalu'n cael ei gyfrifo ar sail hynny.
181. Os oes gennych chi unrhyw amheuan ynglŷn â chymhwyster unrhyw wariant, rhaid i chi wirio **cyn** i chi fynd i gostau.

Troseddau

182. Mae Rheoliadau Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (Grantiau) (Cymru) 2016 Rhif 665 (W. 182) yn pennu troseddau a chosbau mewn perthynas ag agweddau penodol ar gyllid Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop. Mae'r enghreifftiau o'r troseddau'n cynnwys rhoi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol yn fwriadol neu'n fyrbwyll mewn perthynas â chyllid Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop; rhwystro arolygwr neu swyddog; a gwrthod rhoi gwybodaeth ar gais.

MONITRO PROSIECTAU

183. Mae'n ofynnol gan y Comisiwn Ewropeaidd bod cynnydd eich prosiect yn cael ei fonitro a bod ei lwyddiant yn cael ei werthuso ar ôl ei gwblhau. Bydd gofyn i chi ddarparu diweddariadau rheolaidd ar ei gynnydd ac adroddiad terfynol ar ei berfformiad dri mis ar ôl ei gwblhau pan fydd y prosiect yn cael ei werthuso yn erbyn yr amcanion a'r targedau sydd yn y cais a gymeradwywyd. Os na fydd y prosiect yn cyrraedd y targedau hyn ac, ar sail y cynnydd a wnaed mewn gwirionedd, ni fyddai'n gymwys i gael cymorth grant o dan y cynllun, gellid cymryd camau i adennill y grant sydd wedi'i dalu.
184. Un o ofynion dyfarnu'r grant fydd sicrhau bod y cyfarpar sy'n cael ei brynu gyda chymorth grant EMFF ac unrhyw adeiladau y telir grant amdanynt, yn cael eu cadw yn eu lleoliad gwreiddiol, yn weithredol ac mewn cyflwr da, ac yn cael eu defnyddio at y dibenion a nodwyd yn y cais gwreiddiol, am bum mlynedd ar ôl dyddiad cwblhau'r prosiect. Mae hyn er mwyn sicrhau hirhoedledd y prosiect a, lle bo hynny'n berthnasol, sicrhau cyfran barhaol o fanteision y prosiect i'r cynhyrchwyr sylfaenol.
185. Ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf, mae'n bosibl y bydd angen cwblhau ffurflen monitro pellach ddwy flynedd ar ôl cwblhau ac eto bum mlynedd ar ôl cwblhau. Bydd ymweliadau â'r safle'n cael eu cynnal ar ganran o'r prosiectau buddsoddiad cyfalaf a gymeradwyir o fewn pum mlynedd i ddyddiad cwblhau'r prosiect i sicrhau bod gan yr ymgeisydd yr adeiladau a/neu'r cyfarpar a brynwyd gyda'r grant o hyd a'i fod yn dal i'w defnyddio at yr un dibenion a bod y busnes yn perfformio yn ôl y disgwyl.
186. Mae'n rhaid i chi ganiatáu i swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd, neu eu cynrychiolwyr, arolygu'r prosiect ar unrhyw adeg resymol o fewn y cyfnod hwn o bum mlynedd.

DIWEDD RHAGLEN EMFF

187. Mae'n rhaid cyflwyno pob hawliad i Lywodraeth Cymru erbyn 30 Mehefin 2023 fan bellaf. Mae'n rhaid cwblhau holl weithgarwch y prosiect mewn da bryd i'r cyfrifon a'r cofnodion gael eu harchwilio ac i hawliadau gael eu paratoi a'u cyflwyno erbyn y dyddiad hwn.

GWEITHDREFN APELIO

188. Os gwrthodir cais, bydd y rhesymau am ei wrthod yn cael eu hegluro. Byddwn yn fodlon trafod unrhyw addasiadau y gallai fod eu hangen i wneud y prosiect yn dderbyniol.
189. Os yw cais yn dal i gael ei wrthod bydd gweithdrefn apelio yn cael ei sefydlu ar ffurf cyflwyniad llafar neu ysgrifenedig i bobl a benodir gan Weinidogion Cymru ac sy'n annibynnol arnynt.

GWEITHDREFN GWYNO

190. Os ydych chi'n teimlo nad ydym wedi dilyn y drefn gywir wrth ddelio â'ch cais efallai yr hoffech wneud cwyn yn unol â Pholisi Cwynion Llywodraeth Cymru sydd ar gael drwy'r post neu ar y wefan yn:

http://gov.wales/contact_us/makeacomplaint/?skip=1&lang=cy